



Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026

Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth Canllawiau Cynllunio Atodol (Mai 2018)



Sand Martin Bank © Barry Stewart

Pipistrelle Bat © Laura Palmer

Shrill Carder Bee © Mark Hipkin

Nodyn at y Darllenydd	1
1 Cyflwyniad	3
2 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot	5
2.1 Beth yw 'Bioamrywiaeth' a 'Geoamrywiaeth'?	5
2.2 Bioamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot	6
2.3 Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot	8
2.4 Seilwaith Werdd	9
3 Y Cyd-destun Polisi	11
3.1 Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol	12
3.2 Y Cyd-destun Polisi Lleol	13
4 Gofynion Polisi	19
4.1 Egwyddorion Cyffredinol	19
5 Gweithredu'r Polisi	21
5.1 Trafodaeth Cyn-Ymgeisio	21
5.2 Cyflwyno Cais Cynllunio	31
5.3 Penderfyniad / Dyfarniad	33
5.4 Monitro, Rheoli ac Adolygu	36
6 Manylion cyswllt	41
 Atodiadau	
A Meini Prawf SINC	1
B RIGS	11
C Canllawiau Penodol ar Gynlluniau Ynni Gwyn	17
D Cynllun Gwneud Iawn	23
E Rhestr Eirfa	29

Nodyn at y Darllenydd

Mae'r ddogfen hon yn ychwanegiad i'r polisiau a geir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac yn eu hegluro. Mabwysiadwyd y CDLI gan y Cyngor ar 27 Ionawr 2016, ac mae'n darparu sylfaen ar gyfer penderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir yn y Fwrdeistref Sirol hyd at 2026.

Paratowyd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yn dilyn ymarferiad ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd yn gwanwyn 2018, a mabwysiadwyd y canllawiau gan Fwrdd Cabinet Adfywio a Datblygu Cynaliadwy'r Cyngor ar 18 Mai 2018.

Er mai polisiau sy'n rhan o'r CDLI yn unig sydd â statws arbennig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, bydd y CCA yn cael eu cymryd i ystyriaeth fel elfen bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r CCA hefyd ar gael yn Saesneg, naill ai i'w lawrlwytho neu ar gais. Os bydd angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat arall, cysylltwch â thîm y CDLI yn ldp@npt.gov.uk neu ar **[01639] 686821**.

1 Cyflwyniad

1.0.1 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn darparu gwybodaeth ac arweiniad sy'n cyflwyno'r disgwyliadau o ran yr holl gynigion datblygu i amddiffyn, cadw, gwella a rheoli cynefinoedd pwysig, rhywogaethau, a safleoedd o ddiddordeb daearegol.

1.0.2 Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar yr ystod lawn o nodweddion a diddordebau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn cyflwyno'r mesurau a ddefnyddir trwy'r system gynllunio i gyflawni'r nodau a'r amcanion perthnasol a gyflwynwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

1.0.3 Cyflwynir polisi cynllunio'r Cyngor yn CDLI Castell-nedd Port Talbot⁽¹⁾ Mabwysiadwyd ym mis Ionawr 2016, sef Polisi Strategol SP15 (Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth) a pholisïau manwl EN6 (Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig) ac EN7 (Nodweddion Naturiol Pwysig) a dylid darllen y CCA hwn yng nghyd-destun y polisïau hynny a'r testun esboniadol.

1.0.4 Mae'r system gynllunio yn ddull pwysig i ni ymdrin ag anghenion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol a'r ardal y tu hwnt, yng nghyswllt defnydd tir, a hynny oherwydd y cyfleoedd a'r effeithiau posibl a ddaw i'w rhan yn sgîl datblygiad. Cefnogir hyn yn llawn gan bolisi cynllunio a gofynion deddfwriaethol.

1.0.5 Mae'n bwysig felly rhoi sylw i faterion o'r fath fel rhan o'r broses o ddelio gyda cheisiadau cynllunio a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio, gan y gallai methu â gwneud hynny olygu bod ceisiadau'n cael eu gwrthod neu bod oedi yn eu cylch.

Diben y CCA

1.0.6 Diben y CCA yw cynorthwyo a thywys ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais cynllunio er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn cael eu hystyried, eu hamddiffyn a'u gwella'n briodol mewn unrhyw gynig datblygu. Mae'n gwneud hynny trwy ategu'r polisïau a gyflwynwyd yn y CDLI, trwy ddarparu canllawiau manylach a thrwy osod polisi cynllunio yng nghyd-destun ehangach deddfwriaeth amgylcheddol, ymrwymadau, Safonau Prydeinig a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth.

1.0.7 Mae'r CCA yn cyflwyno fframwaith sylfaenol ar gyfer delio gyda bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn y broses gynllunio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn benodol yng nghyswllt bioamrywiaeth, mae llawer iawn o arweiniad manylach ar gael yn Safon Brydeinig 42020:2013 'Biodiversity - Code of Practice for Planning and Development'. Er nad yw'r CCA yn ailadrodd adrannau o'r Safon Brydeinig, mae'r ddogfen yn cyfeirio at adrannau perthnasol lle bo hynny'n briodol.

Strwythur a Chynnwys

1.0.8 Mae'r CCA yn ymdrin â'r canlynol:

- Cyflwyniad i'r adnodd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth lleol;

1 . Cyflwyniad

- Gwybodaeth gefndir ynghylch y ddeddfwriaeth a'r ymrwymadau perthnasol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth;
- Rôl y system gynllunio, gan ymhelaethu ar fanylion polisi cynllunio cenedlaethol a lleol a'r Safon Brydeinig;
- Esboniad ar sut mae cadwraeth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn cael sylw ar wahanol adegau yn y broses gynllunio; a
- Sut bydd gweithrediad y CCA hwn a chydymffurfio ag ef yn cael ei fonitro, ynghyd â mecanweithiau adolygu.

1.0.9 Er nad yw'n rhan o'r CCA, mae'r Cyngor hefyd wedi cynhyrchu '*Canllaw*' sy'n darparu cyngor ymarferol ychwanegol i ymgeiswyr/ddatblygwyr ynghylch gofynion sylfaenol arolwg bioamrywiaeth (gan gynnwys cyfyngiadau tymhorol ac amseru); enghreifftiau o gynigion gwneud iawn a lliniaru; a sut mae cwblhau'r elfennau bioamrywiaeth / geoamrywiaeth ar y ffurflen cais cynllunio.

2 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

2.1 Beth yw 'Bioamrywiaeth' a 'Geoamrywiaeth'?

Bioamrywiaeth

2.1.1 Ceir diffiniad defnyddiol o fioamrywiaeth yn Adroddiad Grŵp Llywio'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth (1995):

'Bioamrywiaeth (byrfodd ar gyfer amrywiaeth biolegol) yw popeth byw, o'r morgrugyn pitw yn yr ardd i'r goeden goch fawreddog. Cewch hyd i fioamrywiaeth ym mhob man, mewn blychau ffenestr a choedydd gwylt, wrth ymyl y ffordd ac mewn fforestydd glaw, meysydd eira ac ar lannau'r môr'.

2.1.2 Fel bodau dynol rydym ni ein hunain yn elfen o fioamrywiaeth y blaned, ac yn dibynnu arno. Mae planhigion ac anifeiliaid yn darparu bwyd ar ein cyfer, mae planhigion yn darparu ocsigen i ni anadlu, ac mae llawer o atyniadau hamdden a thwristaidd yn dibynnu ar fwynhau ein bioamrywiaeth brodorol. Ar ben hynny, gall bioamrywiaeth fod o gymorth i atal llifogydd, cynnydd yn y tymheredd mewn trefi a dinasoedd, ac o ran darparu manteision iechyd a llesiant i bobl. Mae felly'n hanfodol ein bod yn ceisio deall a diogelu ein bioamrywiaeth, gan mai dyma'r sylfaen ar gyfer llawer o'r gwasanaethau rydym yn dibynnu arnynt yn ein bywydau beunyddiol, ac mae'n un o brif elfennau gwaelodol datblygu cynaliadwy.

Geoamrywiaeth

'Mae geoamrywiaeth yn disgrifio ystod ac amrywiaeth y nodweddion daearegol sy'n creu ac yn ffurfio'r Ddaear, sef yr amrywiaeth llawn o greigiau, mwynau, ffosiliau, tirffurfiau, gwaddodion, priddoedd a dŵr, ynghyd â'r prosesau naturiol sy'n eu ffurfio a'u newid'.

2.1.3 Mae pwysigrwydd diogelu safleoedd sy'n adlewyrchu geoamrywiaeth tirlun ac amgylchedd naturiol y Deyrnas Unedig bellach yn cael ei gydnabod fel rhywbeth o arwyddocâd pwysig yng nghyd-destun cynllunio a datblygu defnydd cynaliadwy o dir. Gall safleoedd o'r fath ddarparu mynediad i graigwely allweddol, haenau arwynebol ac unedau pridd sy'n cynnwys tystiolaeth addysgiadol ynghylch cyfnodau blaenorol o newid amgylcheddol, gan gynnwys newid o ran defnydd tir a'r hinsawdd; mae llawer yn olrhain hanes echdynnu mwynau'n lleol a'r datblygiad diwydiannol cysylltiedig; roedd eraill, ac maent yn parhau felly, yn unig ffynhonnell ar gyfer cerrig adeiladu sy'n cyfrannu at ein trefnadaeth bensaernïol.

2 . Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

2.2 Bioamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

Rhywogaethau, Cynefinoedd a Safleoedd

2.2.1 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd, o ucheldir agored i goetiroedd hynafol ar ochrau'r cymoedd ac afonydd sy'n rhedeg ar hyd gwaelod dyffrynnoedd, i gorstir a thwyni tywod lle mae'r afonydd yn cwrdd â'r môr. Yn ogystal â'r cynefinoedd hyn sy'n digwydd yn naturiol, mae gan y Fwrdeistref Sirol hefyd gynefinoedd o wneuthuriad dyn sydd hefyd o ddiddordeb ecolegol, megis camlesi, rhostir a hyd yn oed tir a ddatblygwyd yn flaenorol sydd wedi datblygu ei blanhigion a'i anifeiliaid diddorol ei hun. Mae cynefinoedd megis perthi, camlesi, afonydd a nodweddion eraill sy'n eu cysylltu, hefyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth greu cysylltiad rhwng cynefinoedd a darparu coridorau i fywyd gwyllt symud ar eu hyd.

2.2.2 Mae rhai o'n cynefinoedd, a'u rhywogaethau cysylltiedig, yn bwysig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, bernir mai Cors Crymlyn a Chors Pant y Sais yw rhai o'r corstiroedd pwysicaf yng Nghymru, yn ogystal â chael eu cydnabod yn rhyngwladol.

2.2.3 Mae cynefinoedd y Fwrdeistref Sirol yn gartref i gyfoeth o rywogaethau bywyd gwyllt. Mae rhai yn brin, megis Corryn Rafft y Ffen, nad yw i'w ganfod unrhyw le arall yng Nghymru a Boda'r Mêl, rhywogaeth sy'n fwy cyffredin yn Ewrop gyfandirol, ond y mae Castell-nedd Port Talbot yn brif gadarnle iddo yng Nghymru. Mae Llamhidyddion Harbwr yn defnyddio ein dociau ym Mhort Talbot a rhywogaethau anghyffredin o blanhigion megis Murwyll Arfor i'w canfod ymhlith ein twyni tywod.

2.2.4 Mae nifer o safleoedd yn y Fwrdeistref Sirol wedi cael eu dynodi ar gyfer cadwraeth natur, ac mae'r rhain yn cynnwys dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae'r ddau ddsbarth cyntaf o ddynodiad wedi'u hamddiffyn gan ddeddfwriaeth benodol, tra bod dynodiadau lleol megis Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur (SINCs) wedi'u hamddiffyn i raddau helaeth trwy'r broses gynllunio.

2.2.5 Yn ogystal â safleoedd dynodedig, mae'r Fwrdeistref Sirol yn gartref i nifer o rywogaethau a amddiffynnir gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a Chenedlaethol.

2 . Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

Llun 2.1 Corryn Rafft y Ffen (gan Steve Bolchover)



Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur

2.2.6 Mae Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur (SINC)s yn safleoedd lleol sydd â gwerth sylweddol o safbwynt cadwraeth natur. Nhw yw'r manau pwysicaf ar gyfer bywyd gwylt y tu allan i safleoedd a ddynodwyd yn gyfreithiol, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Yn ogystal, maen nhw'n bwysig i ddarparu cefnogaeth a

chysylltiadau, mewn cyd-destun lleol, i safleoedd o'r fath sydd â dynodiad rhyngwladol a chenedlaethol. Fel arfer rhoddir amddiffyniad i SINCs, yn arbennig rhag datblygiad niweidiol, trwy'r broses gynllunio. Yn ogystal, gall cefnogaeth i'w rheoli fod yn darged ar gyfer cymorth grant, yn ogystal ag unrhyw gyllid a ddaw yn sgîl cynllunio.

2.2.7 Er bod nifer o SINCs eisoes wedi'u nodi, dylid amlygu y bydd unrhyw safle sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn **Atodiad A**, ond sydd heb ei ddynodi'n SINC eto, yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn yr un modd yn y broses gynllunio â rhai a nodwyd eisoes. Mae manylion pellach ynghylch y broses o adnabod SINCs, polisi ac adolygu yn cael eu darparu yn **Atodiad A**.

Effeithiau ar yr Adnodd Bioamrywiaeth

2.2.8 Dros gyfnod o amser, mae'r adnodd bioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol wedi lleihau'n gynyddol o ganlyniad i reolaeth amhriodol, dwysáu amaethyddol a phwysau datblygu. Mae rhai cynefinoedd wedi colli tir yn ddramatig a dim ond cyfran fechan iawn o'r adnodd gwreiddiol sy'n bodoli erbyn heddiw, mae hyn yn arbennig o wir am y cynefinoedd arfordirol megis y twyni tywod.

2.2.9 Er bod datblygiad yn gallu cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol trwy gollu cynefinoedd a'u rhywogaethau cysylltiedig yn uniongyrchol, aflonyddu ar safleoedd ac oddi arnynt, a darnio cynefinoedd fel bod rhywogaethau'n cael eu hynysu a chyfnewid genetig yn cael ei atal, gall hefyd greu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a gwyrdroi difrod blaenorol, yn ogystal ag osgoi colledion net trwy gynllunio a dylunio gofalus.

2.2.10 Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r gofrestr SINCs yn amlygu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau lleol hynny, y tu allan i safleoedd statudol eu dynodiad, sy'n wynebu'r risg uchaf o ran effeithiau o'r fath. Bernir bod y rhain, felly, yn flaenoriaethau cadwraeth ac maent yn darparu ffocws ar gyfer gweithredu cadwraeth oddi mewn i'r broses ddatblygu.

2 . Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

2.3 Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

2.3.1 Mae Castell-nedd Port Talbot yn gorwedd yn bennaf ar greigiau Carbonifferaidd Uwch Maes Glo De Cymru, sy'n estyn o Bontypŵl i Abertawe, ac o dan hynny ceir Cerrig Calch Carbonifferaidd a Grut Melinfaen. Yn sylfaen i'r haenau hyn mae'r creigiau Defonaidd llawer hŷn sydd hefyd yn ffurfio ardaloedd ucheldir Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Du.

2.3.2 Oddi mewn i Faes Glo De Cymru mae tri phlyg pwysig o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda ffawtiau eang, gan gynnwys Aflonyddwch Cwm Tawe a Nedd, sydd wedi dylanwadu ar leoliad a chyfeiriadedd y gwahanol gymoedd a geir yng Nghastell-nedd Port Talbot.

2.3.3 Ceir haenau rhewlifol Pleistocen helaeth o glog-glai, tywod a graean yn yr ardal, ac mae cymoedd Nedd a Thawe yn arddangos y ffurf U nodweddiadol a geir yn sgîl rhewlif, gyda chymoedd crog a rhaeadrau cysylltiedig, mariannau terfynol a therasau a adawyd wrth i'r iâ gilio.

2.3.4 Gall ystod o ddynodiadau cadwraeth gynnwys diddordeb daearegol, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS). Oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot, ceir pedair SoDdGA a dwy RIGS a ddynodwyd am resymau daearegol (gweler **Atodiad B**).

Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol

Llun 2.2 Craig y Llyn



2.3.5 Rhaeadrau Aberdulais:

Mae'r rhaeadrau a'r creigiau a geir yn yr atyniad hwn i ymwelwyr sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnig mynediad at Dywodfaen Pennant trawiadol o oes Brithdir. Mae gan y safle ei amgueddfa/ganolfan addysg ei hun, ac mae'n darparu mynediad rhagorol, hwylus iawn i safle sydd o ddiddordeb daearegol a hanesyddol.

2.3.6 Nant Melincwrt:

Mae rhan o'r safle'n hygyrch iawn gyda llwybrau troed sydd wedi'u cynnal yn dda, gan arwain at raeadr

ysblennydd, sy'n dangos mewn modd graffig sut cânt eu ffurfio wrth i waddodion mwy meddal gael eu herydu ac i'r gwelyau caletach uwch eu pennau syrthio. Mae'r safle yn torri trwy Welyau Tywodfaen Pennant a glo Rhondda a Brithdir, ac yn creu un o'r adrannau mwyaf di-dor yng Ngwelyau Brithdir. Mae'r safle hefyd yn cynnwys gwaith haearn nad yw'n cael ei ddefnyddio a thomenni cysylltiedig â gwaith glo, sydd o ddiddordeb hanesyddol a diwydiannol.

2.3.7 Ceir manylion llawn y RIGS hyn yn **Atodiad B**.

2 . Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

2.3.8 Mae'r adnodd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynnal nodweddion sydd hefyd yn bwysig mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol ac archaeolegol. Mae cynefinoedd dyfrlawn, megis ffeniau a chorsydd, yn cadw arteffactau archaeolegol megis esgyrn, pren a deunydd, a gallant ddarparu cofnod hanesyddol pwysig o blanhigion ac anifeiliaid. Mae perthi, ffiniau caeau, coedydd a chyrsgiau dŵr yn aml yn cyfrannu at y cofnod hanesyddol o ddefnydd blaenorol tir ac ymyrraeth ddynol. Gall ardaloedd mwyngloddio a defnyddiau diwydiannol eraill hefyd fod yn bwysig mewn perthynas â diogelu ein treftadaeth ddiwydiannol.

2.4 Seilwaith Werdd

2.4.1 Mae cynefinoedd bioamrywiaeth a nodweddion naturiol, ynghyd â nodweddion geoamrywiaeth, yn cael eu hystyried yn 'asedau seilwaith werdd' sy'n aml yn cyflawni manteision pwysig, y byddai angen defnyddio peirianeg galed i'w gwireddu fel arall.

Y diffiniad o seilwaith werdd yw '...y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, manau glas, afonydd a llynnoedd sy'n digwydd rhwng pentrefi, trefi a dinasoedd ac yn eu cysylltu â'i gilydd. Mae'n seilwaith naturiol, sy'n darparu gwasanaethau, sy'n aml yn fwy cost-ffeithiol, yn fwy cydnerth ac yn fwy galluog i gyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd na seilwaith 'lwyd'⁽²⁾

Ymhlith yr enghreifftiau posibl mae parciau a gerddi, manau glas, rhandiroedd, mynwentydd, coridorau glas, toeon glas/brown, cynlluniau draenio trefol cynaliadwy a choed (sy'n cynnwys coed unigol, coed ar y stryd, grwpiau o goed neu ardaloedd coetir).

2.4.2 Mae asedau seilwaith werdd yn aml yn cyflawni sawl swyddogaeth, a gallant gynnig nifer fawr o fanteision i gymdeithas, gan gynnwys manau glas⁽³⁾, amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, cadw a dehongli ein hamgylchedd hanesyddol, a lliniaru llifogydd a rheoli dŵr, i enwi ond ychydig. Mae i'r swyddogaethau hyn, felly, werth economaidd go iawn oherwydd eu bod yn lleihau costau amgylcheddol ac yn rhoi hwb i werth eiddo yn sgîl agosrwydd gwyrddni neu fannau glas, er enghraifft.

2 Seilwaith Werdd: Dull Integredig o Ddefnyddio Tir - Datganiad Sefyllfa (2013 - Y Sefydliad Tirlun)
3 Canllaw Cynllunio Atodol Mannau Agored a Mannau Glas (Gorffennaf 2017).

2 . Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

Canllaw Cynllunio Atodol: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth (Mai 2018)

3 Y Cyd-destun Polisi

3.0.1 Mae polisi cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth wedi datblygu yng nghyd-destun hanes hir o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt genedlaethol, ynghyd â'r confensiynau a'r cytundebau rhyngwladol mwy diweddar a deddfwriaeth Ewropeaidd. Bwriad fframwaith deddfwriaethol cenedlaethol cyfredol y Deyrnas Unedig yw cadw ein hadnoddau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth pwysig, a chyflawni rhwymedigaethau y confensiynau a'r cyfarwyddebau rhyngwladol perthnasol.

Ymrwymadau a Deddfwriaeth

3.0.2 Mae amrywiaeth o Ddeddfau seneddol, Confensiynau Rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd yn gofyn bod bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu a'i ystyried yn y broses gynllunio. Mae'r canlynol yn nodi rhai o'r prif ymrwymadau a'r deddfwriaeth y deuir ar ei thraws amlaf yn y broses gynllunio:

- Mae ***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol (1992)*** yn gofyn bod bioamrywiaeth yn cael ei ddefnyddio mewn modd na fydd yn arwain at ei ddirywiad. Mewn ymateb i'r Confensiwn hwn cyflwynwyd **Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth**.
- Mae ***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd)*** yn trosglwyddo gofynion Cyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop i gyfraith y Deyrnas Unedig. Mae'r Rheoliadau hyn, ynghyd â ***Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i newidiwyd)*** yn amddiffyn safleoedd a rhywogaethau penodol.
- Mae ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** yn gosod dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus i gynhyrchu amcanion llesiant sy'n cyfrannu at gyflawni set o nodau llesiant troswaol. Nod Cymru Gydnerth yw'r nod allweddol y bydd cadwraeth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, fel rhan o'r broses gynllunio, yn cyfrannu at ei gyflawni.
- Mae ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** yn gosod dyletswydd statudol ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny i hybu gwydnwch ecosystemau, gyda'r bwriad o sicrhau bod bioamrywiaeth yn dod yn rhan annatod o bob penderfyniad a wneir mewn awdurdodau cyhoeddus.

3 . Y Cyd-destun Polisi

Llun 3.1 Gorlifdir, Castell-nedd



rywogaethau penodol.

3.1 Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

3.1.1 Cyflwynir y fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9 Tachwedd 2016) (PCC9)** a cheir rhagor o fanylion yn **Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) (TAN 5)**. Mae'r rhain yn cyflwyno amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu a gwella ein treftadaeth naturiol ac yn pwysleisio'r rhan bwysig sydd gan y broses gynllunio i'w chwarae o ran cyflawni amcanion bioamrywiaeth. Rhoddir pwyslais arbennig ar greu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth a lliniaru neu wneud iawn am golledion lle na ellir osgoi niwed.

3.1.2 Mae'r **Safon Brydeinig: Bioamrywiaeth - Côd ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BS 42020:2013)** yn gôd ymarfer ar gyfer sicrhau dull cyson a phroffesiynol o ymdrin â materion bioamrywiaeth wrth iddyn nhw godi yn y broses gynllunio. Mae'n cyflwyno argymhellion ar gyfer pawb sy'n ymwneud â hyn, gan gynnwys cynllunwyr, datblygwyr a gweithwyr proffesiynol bioamrywiaeth/ecoledol. Yn arbennig, mae'n cyflwyno'r gofynion o ran yr wybodaeth bioamrywiaeth briodol sy'n angenrheidiol yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio, a hynny yng nghyswllt data arolygon, asesu a mesurau ar gyfer ymdrin ag effeithiau.

3.0.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Cymru (Rhagfyr 2015)**, sy'n adeiladu ar y fframweithiau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn y Deddfau Llesiant a'r Amgylchedd, ac yn nodi'r camau gweithredu ar gyfer sut mae ymdrin ag achosion gwaelodol colli bioamrywiaeth.

3.0.4 Mae'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru felly'n galw am ddiogelu bioamrywiaeth oddi mewn i'r amgylchedd ehangach, yn ogystal â diogelu safleoedd neu

Llun 3.2 Cornchwiglen (gan Barry Stewart)



yn y **Safon Brydeinig**, gan y bydd hynny'n sicrhau bod datblygiadau'n symud yn hwylus trwy'r broses gynllunio, a hynny'n brydlon.

3.1.5 Mae'r fframwaith polisi uchod yn darparu'r cyd-destun trosgynnol a'r angen i bob sefydliad cyhoeddus, preifat a gwirfoddol weithredu'n rhagweithiol i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth.

3.2 Y Cyd-destun Polisi Lleol

Cynlluniau Bioamrywiaeth Lleol

3.2.1 Ar lefel leol ac mewn ymateb i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, a lofnodwyd yn 1992, lluniwyd **Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI)** i gynnwys targedau ar gyfer gweithredu cadwraeth lleol, gan weithio ar y cyd at gyflawni'r targedau cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn rhestru cynlluniau gweithredu ar gyfer nifer o rywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth genedlaethol a/neu leol ac yn ffocws ar gyfer gweithredu cadwraeth lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot⁽⁴⁾ Mae'r **CGBLliu** hefyd yn awr yn rhan allweddol o'r mecanwaith cyflwyno ar gyfer Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

3.2.2 Mae **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth CBS Castell-nedd Port Talbot (2017)** yn dangos sut bydd y Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth a nodwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn cyflawni yn erbyn amcanion llesiant a dulliau gwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ogystal â chyfrannu at gyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.⁽⁵⁾

3.1.3 Mae'r **Safon Brydeinig** yn sicrhau bod y broses gynllunio yn cyd-fynd â'r broses dylunio datblygu, ac yn nodi ble mae angen rhoi ystyriaeth i fioamrywiaeth fel elfen allweddol yn y ddwy broses hon. Trwy ddilyn y dull gweithredu a nodwyd, bydd materion bioamrywiaeth yn derbyn sylw ar hyd y broses o ddylunio datbygiad, gan leiafu'r oedi a'r angen am ôl-osod drud neu fesurau lliniaru adweithiol.

3.1.4 Dylid dilyn yr argymhellion

4 Mae rhagor o fanylion i'w gweld ar wefan y Cyngor.

5 Mae rhagor o fanylion i'w gweld ar wefan y Cyngor.

3 . Y Cyd-destun Polisi

Y Cynllun a'r Amcanion Llesiant Lleol

3.2.3 Fel y cyfeiriwyd uchod, mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynhyrchu amcanion llesiant, ac mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru, y mae'n rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol, sy'n cyflwyno amcanion a sut bydd y bwrdd neu'r aelodau unigol yn eu cyflawni.

3.2.4 Bydd gofyn bod amcanion y Cyngor a/neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflawni yn erbyn y nodau llesiant, gan gynnwys nod **Cymru Gydnherth**, sy'n cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth wrth symud ymlaen.

Y Cynllun Datblygu Lleol (2011-2026) (Ionawr 2016)

3.2.5 Mae **Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)** Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys polisiau sy'n sicrhau bod safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn rhyngwladol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn cael eu nodi, eu diogelu a'u gwella, ynghyd â nodweddion treftadaeth naturiol pwysig eraill (Polisi Strategol SP15). Yna mae polisiau manwl eraill yn dilyn ymlaen o'r polisi strategol hwn.

Polisi SP15

Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

Bydd cynefinoedd a rhywogaethau pwysig a safleoedd o ddiddordeb daearegol yn cael eu hamddiffyn, eu cadw, eu gwella a'u rheoli trwy gyfrwng y mesurau canlynol:

1. Nodi'r safleoedd canlynol o fewn y Fwrdeistref Sirol a ddynodwyd yn Rhyngwladol ac yn Genedlaethol, fel bod modd eu hamddiffyn:
 - (a) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd Ramsar;
 - (b) Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
 - (c) Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC).
2. Nodi ac amddiffyn safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol;
3. Amddiffyn nodweddion treftadaeth naturiol pwysig.

Amcan y CDLI: OB 15

3.2.6 Mae Polisi SP15 yn dangos bod ACA, SoDdGA a GNC wedi'u nodi yn y CDLI (dangosir y rhain ar Fap Cynigion y CDLI). Mae'r safleoedd dynodedig hyn yn cael eu hamddiffyn o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, ac mae'r polisiau cynllunio

perthnasol i'w gweld yn PCC a TAN5. Cyflwynir y polisiâu ar gyfer safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol ac ar gyfer diogelu nodweddion treftadaeth naturiol eraill pwysig ym mholisiâu CDLI EN6 ac EN7.

Polisi EN6

Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig

Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNC), Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur (SINCs), safleoedd sy'n bodloni meini prawf SINC neu safleoedd sy'n cynnal y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) neu gynefinoedd neu rywogaethau Adran 42⁽⁶⁾, ond lle:

1. Maent yn cadw a, lle bo modd, yn gwella pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle; neu
2. Na ellid lleoli'r datblygiad yn rhesymol rywle arall, ac mae manteision y datblygiad yn gorbwysu pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle.

Bydd angen cytuno ar fesurau lliniaru a/neu wneud iawn lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol.

3.2.7 Os bydd safle'n destun dynodiad rhanbarthol neu leol [h.y. Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur (SINCs), Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI), ynghyd â'r CGBLI a chynefinoedd a rhywogaethau A7 (A42 gynt)], neu os gallai'r datblygiad arfaethedig gael effaith ar safle a ddynodwyd yn lleol, y prif bolisi perthnasol yw Polisi EN6 y CDLI.

3.2.8 Mae Polisi EN6 yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer datblygiadau a fyddai'n effeithio ar safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau a ddynodwyd yn rhanbarthol ac yn lleol. Byddai angen i gynigion cynllunio na fyddent yn cadw neu'n gwella pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle gydymffurfio â maen prawf 2 o'r polisi (h.y. dangos na fyddai modd yn rhesymol i'r datblygiad gael ei leoli mewn man arall, ac y byddai manteision y datblygiad yn gorbwysu pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle).

3.2.9 Mewn achosion lle dangosir bod maen prawf 2 yn berthnasol, mae'r polisi'n gofyn bod mesurau lliniaru a/neu wneud iawn priodol yn cael eu cytuno a'u gweithredu. Dim ond lle nad oes modd cynnig mesurau lliniaru llawn y bydd mesurau gwneud iawn yn cael eu hystyried, yn gyntaf o fewn y safle, ac os bydd popeth arall wedi methu, ar safle addas mewn man arall. Mae rhagor o fanylion ynghylch materion gwneud iawn yn **Atodiad D**. Yn gyffredinol, nod Polisi EN6 yw sicrhau na fydd colled net o ran bioamrywiaeth, ac y bydd enillion net, lle bynnag y bo modd, yn sgîl datblygiad.

3 . Y Cyd-destun Polisi

Llun 3.3 Gwiber (Hawfrait Peter Hill)



Polisi EN7

Nodweddion Naturiol Pwysig

Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith niweidiol ar nodweddion naturiol sy'n bwysig yn ecolegol neu'n weledol, megis coed, coetir, perthi/ffiniau caeau, cyrsiau dŵr neu byllau, ond lle:

1. Rhoddwyd sylw llawn i'r nodweddion perthnasol yn nyluniad y datblygiad, gyda mesurau'n cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau eu bod yn cael eu cadw a'u hamddiffyn lle bynnag y bo modd; neu
2. Mae gwerth a rôl bioamrywiaeth y nodwedd berthnasol wedi cael eu hystyried, a lle na ellir osgoi ei cholli, cytunir ar fesurau lliniaru.

3.2.10 Rhoddir sylw i nodweddion naturiol penodol o dan Bolisi EN7. Mae'r polisi hwn yn gofyn bod nodweddion megis coed, pyllau, coetir, perthi a ffiniau caeau yn cael eu hystyried yn briodol a'u hymgorffori i ddyluniad datblygiad. Lle nad yw hynny'n bosibl, mae lliniaru priodol neu wneud iawn yn ofynnol. Gall nodweddion o'r fath weithredu fel cysylltiadau allweddol yn creu cysylltiad rhwng poblogaethau neu'n caniatáu i rywogaethau symud. Er y bydd llawer o'r nodweddion yn cael eu diogelu hefyd o dan y polisïau y soniwyd amdanynt yn flaenorol, nod y polisi hwn yw cyfeirio at nodweddion ychwanegol a all weithredu i gynnal ein hadnodd bioamrywiaeth lleol, yn arbennig y rhai sy'n darparu cysylltedd allweddol i ganiatáu ar gyfer mudo mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd, yn unol â Pholisi Strategol SP1 y CDLI (Newid yn yr Hinsawdd).

3.2.11 Yn gyffredinol, mae'r polisïau hyn yn pwysleisio bod yr adnodd bioamrywiaeth a daearegol sydd i'w diogelu yn mynd y tu hwnt i ardaloedd dynodedig statudol, a bod cadwraeth yn cynnwys cadw, diogelu, rheolaeth gynaliadwy, a gwaith creu ac adfer. Mae'r polisïau'n annog ymgorffori bioamrywiaeth a geoamrywiaeth wrth ddylunio datblygiad, a hynny yng nghyswllt eu hamddiffyn a lliniaru effeithiau niweidiol. Lle na ellir osgoi colledion

sylweddol fel rhan o ddatblygiad, mae'r polisi'n gofyn bod mesurau lliniaru a/neu wneud iawn priodol yn cael eu cytuno a'u gweithredu. Fodd bynnag, pwysleisir bod y mesur olaf hwn i'w ddefnyddio pan fo popeth arall wedi methu, a bydd angen dangos bod pob opsiwn arall wedi cael ei ystyried cyn i'r senario hwn gael ei gytuno.

3.2.12 O ystyried yr amddiffyniad helaeth a geir trwy'r polisiâu hyn, mae'n eglur y bydd gwybodaeth ynghylch bioamrywiaeth, a rhoi ystyriaeth iddo (a geoamrywiaeth lle bo hynny'n berthnasol) yn rhan angenrheidiol o'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. O ddewis hefyd dylai ystyriaethau o'r fath gael eu cynnwys yn nyluniad y datblygiad, fel bod nod o sicrhau enillion net i fioamrywiaeth, ochr yn ochr â pharhau i ddiogelu ein hadnodd geoamrywiaeth.

3 . Y Cyd-destun Polisi

Canllaw Cynllunio Atodol: Bioamrywiaeth a Geocamrywiaeth (Mai 2018)

4 Gofynion Polisi

4.0.1 O ystyried y polisiau a amlinellwyd yn **Adran 3**, wrth asesu ceisiadau cynllunio bydd rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) roi sylw i effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar yr adnodd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth ymhlith ffactorau eraill. Mae'n hanfodol, felly, bod datblygwyr yn ystyried effaith eu cynigion ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Mae'r canlynol yn cyflwyno'r egwyddorion trosfwaol cyffredinol sy'n ymhelaethu ymhellach ar y gofynion polisi ac yn eu hesbonio.

4.1 Egwyddorion Cyffredinol

4.1.1 Isod cyflwynir yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer ystyried effaith cynigion datblygu ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth.⁽⁷⁾

Egwyddorion Cyffredinol o ran Bioamrywiaeth ym maes Cynllunio a Datblygu

- ✓ Rhagweld holl effeithiau posib cynnig datblygu ar fioamrywiaeth mor gynnar â phosib yn y broses gynllunio.
- ✓ Amddiffyn safleoedd dynodedig, rhywogaethau a ddiogelir, cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth/A7.
- ✓ Sicrhau nad yw datblygiad yn arwain at golled net o ran bioamrywiaeth.
- ✓ Nodi cyfleoedd i ddatblygiad gyfrannu at enillion net i fioamrywiaeth a diogelu geoamrywiaeth.
- ✓ Rhoi sylw i'r effeithiau anuniongyrchol a chronnol.
- ✓ Cydnabod pwysigrwydd coridorau bywyd gwyllt a cherrig camu a'u diogelu.
- ✓ Atal a cheisio gwyrddroi darnio cynefinoedd ac ynysu poblogaeth rhywogaethau.

4.1.2 Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefi Brenhinol (RTPI) wedi cynhyrchu dull gweithredu defnyddiol, cam wrth gam, er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ystyriaeth ddigonol yn y broses gynllunio, ac mae'r dull gweithredu hwn, fesul cam, wedi ffurfio sail ar gyfer strategaeth y CDLI a pholisiau manwl. Yn unol â pholisiau'r CDLI, rhaid i ddatblygwyr ddangos bod sylw dyledus wedi'i roi i'r dull gweithredu cam wrth gam hwn.

Dull Gweithredu Cam wrth Gam

- ✓ Nodi a diogelu unrhyw gynefin/rywogaeth pwysig presennol, neu a allai fod yn bwysig a chysylltedd ecolegol.

4 . Gofynion Polisi

- ✓ Osgoi colli unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau pwysig presennol neu bosibl; neu ddarnio cysylltedd ecolegol.
- ✓ Dylunio bioamrywiaeth fel rhan o geisiadau/brosiectau (e.e. tirlunio, SUDS, cynllun safle, toeon byw a ffasadau ac ati).
- ✓ Lliniaru ar gyfer unrhyw niwed na ellir ei osgoi neu golli cynefin/rhywogaeth pwysig neu ddarnio cysylltedd ecolegol.
- ✓ Gwneud iawn am unrhyw golledion cynefin/rhywogaeth na ellir eu lliniaru y gellir eu cyfiawnhau.
- ✓ Gwella a chynyddu bioamrywiaeth y safle neu oddi ar y safle, os nad oes modd darparu ar gyfer gofynion o'r fath ar y safle.

4.1.3 Er ei bod hi'n bwysig ystyried gwahanol nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth datblygiad, dylai datblygwyr hefyd ystyried materion o'r fath mewn modd mwy cyfannol er mwyn manteisio ar fuddion nodweddion o'r fath fel asedau seilwaith werdd ac er mwyn cysoni unrhyw faterion sy'n cystadlu â'i gilydd.

4.1.4 Mae'r Cyngor yn barnu bod defnyddio dull gweithredu seilwaith werdd yn arfer gorau, a thrwy sicrhau bod asedau seilwaith werdd o'r fath yn ffurfio rhan annatod o ddyluniad a chynllun datblygiad, gellir gwireddu'r cyfleoedd a'r manteision a all ddod i ddatblygiad yn sgîl asedau o'r fath. Argymhellir eich bod yn ystyried y dull gweithredu hwn wrth ddarllen yr adrannau sy'n weddill o'r ddogfen hon.

4.1.5 Ceir canllawiau pellach yn nodi sut mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei gymhwyso i amrywiol gamau'r broses gynllunio yn **Adran 5**.

5 Gweithredu'r Polisi


5.1 Trafodaeth Cyn-Ymgeisio

5.1.1 Anogir ymgeiswyr i gynnal trafodaethau cynnar gyda'r Adran Gynllunio i drafod pa bolisiau sy'n berthnasol i'w cynnig. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod eu cynnig gyda Swyddog Cynllunio mor gynnar â phosib er mwyn amlygu unrhyw faterion bioamrywiaeth / geoamrywiaeth penodol yn gynnar er mwyn osgoi unrhyw oedi yn ddiweddarach yn y broses.⁽⁸⁾

5.1.2 Bydd trafodaethau manwl yn canolbwyntio ar yr holl rwymedigaethau cynllunio perthnasol ac unrhyw ystyriaethau penodol i'r safle, gan gynnwys y mesurau osgoi/lliniaru/gwneud iawn neu wella y bydd y cynnig yn eu cynhyrchu. Yn fwy penodol, gall hyn gynnwys dyluniad y datblygiad; dethol safle a gwaith arolwg; lle gallai fod angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd oherwydd bod posibilrwydd i'r cynnig effeithio'n sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd neu Ryngwladol a ddynodwyd; ac yn achos gwneud iawn oddi ar y safle, gellir darparu amcan dangosol o'r costau A106 hefyd lle bo hynny'n berthnasol.

5.1.3 Dylid nodi na fydd hawliau datblygu a ganiateir fel arfer o reidrwydd yn gymwys i rai datblygiadau lle mae bioamrywiaeth yn codi.⁽⁹⁾

Llun 5.1 Crynodeb o'r trafodaethau cwmpasu Trafodaethau Cyn-Ymgeisio



8 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal trafodaethau cyn-ymgeisio y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i'w gweld ar wefan y Cyngor.
 9 Ceir mwy o fanylion ynghylch hyn yn yr esboniad ar 'datblygiad a ganiateir' yn y Rhestr Termau (**Atodiad E**).

Gofynion o ran Gwybodaeth

5.1.4 Lle bo materion bioamrywiaeth a/neu geomrywiaeth yn debygol o godi, dylai datblygwyr gasglu gwybodaeth ddigonol cyn gynted â phosibl er mwyn llywio'r broses gynllunio a dyluniad, safle a gwaith arolwg gofynnol y cynnig. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch bioamrywiaeth/geomrywiaeth y safle arfaethedig (asedau seilwaith werdd), effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posib ar fioamrywiaeth/geomrywiaeth ar y safle ac oddi arno (e.e. yr effaith ar goridorau bywyd gwyllt) ac arwyddocâd yr effeithiau hyn.

5.1.5 Mae sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn ddigonol yn debygol o alw am gefnogaeth arbenigol, yn enwedig lle bo gwerth bioamrywiaeth a/neu geomrywiaeth sylweddol i'r safle. Mae arweiniad arbenigol yng nghyswllt bioamrywiaeth ar gael gan Dîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).⁽¹⁰⁾

5.1.6 Mewn achosion lle nad yw datblygwr yn darparu gwybodaeth ddigonol fel rhan o'r cais a gyflwynwyd, gall hynny arwain at oedi yn y broses ddilysu ac o ganlyniad wrth benderfynu ar y cais yn y pen draw, yn arbennig mewn achosion lle mae angen data arolwg pellach sydd â chyfyngiadau tymhorol. Gellir gwrthod ceisiadau hefyd ar sail diffyg gwybodaeth ddigonol. Ar ben hynny, os deuir o hyd i rywogaethau a amddiffynnir yn annisgwyl yn ddiweddarach, ar ôl i ddatblygiad gychwyn, gall fod angen atal gwaith tra bod trwydded briodol yn cael ei cheisio gan CNC neu Lywodraeth Cymru, ac nid oes gwarant y byddai trwydded o'r fath yn cael ei rhoi.

5.1.7 Dylai datblygwr geisio cyngor cyn-ymgeisio gan yr Adran Gynllunio i ganfod pa wybodaeth y mae angen ei darparu fel rhan o'r cais a gyflwynir. Os oes angen arolygon, gellir rhoi cyngor ar gwmpas yr arolygon a'u dulliau, a bydd cyngor yn cael ei roi hefyd ynghylch a fyddai angen Aseiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer y datblygiad, a byddai'n manylu ar gwmpas y gwaith bioamrywiaeth/daearegol angenrheidiol ar gyfer yr aseiad hwn.

5.1.8 Isod cyflwynir rhestr ddangosol o'r wybodaeth y bydd disgwyl i ddatblygwr ei darparu fel rhan o gais cynllunio a gyflwynir. Trwy geisio cyngor cyn-ymgeisio, bydd modd teilwra'r gofynion isod er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn berthnasol ac yn rhesymol ar gyfer y safle a'r cynnig datblygu.

Gofynion o ran Gwybodaeth

- Manylion ynghylch **bioamrywiaeth presennol** y safle a'i werth⁽¹¹⁾, gan gynnwys presenoldeb neu absenoldeb rhywogaethau a amddiffynnir; rhywogaethau neu gynefinoedd blaenoriaeth fel y'u rhestrir yn y CGBLI neu A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) neu fodloni meini prawf SINC; presenoldeb safleoedd dynodedig ar y safle neu gerllaw; presenoldeb cynefinoedd neu nodweddion sy'n cynnal yr adnodd bioamrywiaeth (e.e. trwy greu cysylltiadau sy'n cynnwys coridorau bywyd gwyllt

10 Mae CNC yn darparu gwasanaeth cyn-ymgeisio, ac yng nghyswllt bioamrywiaeth gallant roi cyngor penodol ynghylch safleoedd a ddynodwyd yn statudol a rhywogaethau a amddiffynnir.

11 I lywio cwmpas yr aseiad hwn, gellir chwilio am ddata bioamrywiaeth safle-benodol hanesyddol defnyddiol o'r ganolfan cofnodion lleol (Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru).

neugerrig camu); presenoldeb nodweddion pwysig fel coed, coetir, perthi/ffiniau caeau, cyrsiau dŵr neu byllau; prosesau ecolegol y mae'r cynefin a'r rhywogaethau a nodwyd yn dibynnu arnynt. Gall fod angen arolygon manwl.⁽¹²⁾

- Manylion **geoamrywiaeth presennol** y safle a'i werth, gan gynnwys presenoldeb Safle Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol ar y safle neu gerllaw.
- Ystyried **cysylltiadau** â chynefinoedd y tu allan i'r safle (yn cynnwys coridorau bywyd gwyllt a cherrig camu).
- Ystyried y gwasanaethau y mae cynefinoedd a nodweddion yn eu darparu a sut gellir cadw'r gwasanaethau hynny, a lle bynnag y bo modd eu gwella (e.e. coed yn cynorthwyo i leihau dŵr ffo arwyneb neu lygredd aer). Dylai hyn gynnwys ystyried yr asedau **seilwaith werdd** ar y safle a sut maent yn cyfrannu at weithrediad yr amgylchedd ar y safle ac yn ehangach⁽¹³⁾
- Asesu **effeithiau** uniongyrchol ac anuniongyrchol y datblygiad ar y bioamrywiaeth / geoamrywiaeth a ganfuwyd ac unrhyw fesurau arfaethedig i **amddiffyn, gwella, lliniaru neu wneud iawn**.
- Asesiad meintiol o **golled neu enillion net bioamrywiaeth** fesul cynefin a/neu rywogaeth A7/CGBLI/SINC.

5.1.9 Lle bo gofyn cynnal arolygon ecolegol, dylent gael eu cyflawni gan ecolegydd â chymwysterau/profiad addas, gan ddilyn methodolegau ac amseriadau safonol, cydnabyddedig. Dylid cymryd hyd yr amser mae'n debygol o'i gymryd i gasglu gwybodaeth addas i ystyriaeth yn y rhaglen ddatblygu. Dylai datblygwyr ddilyn y canllawiau ar gyfer adroddiadau ecolegol a nodwyd yn 'Safon Brydeinig 42020' a 'Sefydliad Siartredig Rheolaeth Amgylcheddol ac Ecoleg'.

Gofynion Ychwanegol (lle bo hynny'n berthnasol)

Yn achos **rhai datblygiadau** gall prosesau neu asesiadau ychwanegol fod yn berthnasol hefyd, ac felly gall fod angen ystyried y canlynol⁽¹⁴⁾:

- Ystyried a oes angen caffael **trwyddedau** gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

12 Ceir canllaw sylfaenol i'r mathau o arolygon y gellir eu disgwyl ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd datblygu yn nogfen 'Canllaw' y Cyngor.

13 Bydd hyn hefyd o gymorth wrth ystyried 'gwydnwch ecosystem' yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

14 Ceir canllaw sylfaenol i'r mathau o arolygon y gellir eu disgwyl ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd datblygu yn nogfen 'Canllaw' y Cyngor.

5 . Gweithredu'r Polisi

- Ystyried a oes angen **Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA)** ar gyfer y datblygiad.
- Ystyried a oes angen **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)** ar gyfer y datblygiad.

Llun 5.2 Cynffig, Port Talbot



Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

5.1.10 Mae'r ACLI, fel rhan o benderfyniad ar gais cynllunio, yn ofynnol er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch cais yn unol â gofynion deddfwriaethol o dan ddeddfwriaeth benodol gysylltiedig â bioamrywiaeth.

5.1.11 Er mwyn galluogi'r ACLI i lunio asesiad neu i ddangos bod gofynion y ddeddfwriaeth wedi'u bodloni, rhaid i wybodaeth berthnasol gael ei darparu gan y datblygwr. Lle bo diffyg o ran gwybodaeth o'r fath, mae'r ACLI yn debygol o weithredu'n rhagofalus. Yn hyn o beth, felly, mae'n fuddiol i ddatblygwr ddarparu gwybodaeth berthnasol i lysio asesiadau a phenderfyniadau o'r fath. Yn benodol yn achos Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer gofyn bod yr ymgeisydd yn darparu gwybodaeth fanwl.

5.1.12 Gall ARhC, o dan y 'Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017)' fel y'u newidiwyd, fod yn ofynnol os gallai datblygiad gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd a ddynodwyd ar lefel Ewropeaidd neu Ryngwladol. Bydd gwybodaeth benodol yn ofynnol ynghylch effeithiau posibl (e.e. crynodiadau gwaddodion llygredd aer sy'n debygol o ddeillio o ddatblygiad). Os yw datblygiad yn debygol o fod ar neu o fewn 500 metr i Safle a Ddynodwyd ar lefel Ewropeaidd, neu mae cyfle y gallai llygryddion gyrraedd safle o'r fath (e.e. llygredd aer neu ddŵr), mae'n debygol y bydd angen ARhC.

Mae'n bwysig ceisio cyngor cyn-ymgeisio er mwyn sicrhau bod holl gwmpas yr wybodaeth sy'n angenrheidiol yn cael ei darparu er mwyn llywio'r asesiad hwn yn cael ei gytuno'n gynnar yn y broses.

5.1.13 Dylid nodi, lle bo canlyniad ARhC yn awgrymu y gallai fod effaith niweidiol ar y safle(oedd) a ddynodwyd ar lefel Ewropeaidd/Ryngwladol, na all yr ACLI benderfynu o blaid y cais, a bydd y cais yn cael ei wrthod neu ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru ar gyfer penderfyniad⁽¹⁵⁾

Gwydnwch yr Ecosystem

5.1.14 O dan ddarpariaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn '*ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny yn hybu gwydnwch ecosystemau*' fel rhan o bob penderfyniad, gan gynnwys penderfyniadau cynllunio. Er mwyn medru cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, rhaid i'r ACLI gymryd i ystyriaeth gwydnwch ecosystemau, yn arbennig yr agweddau canlynol:

- Amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
- Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
- Graddfa ecosystemau;
- Cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); a
- Gallu ecosystemau i addasu.

5.1.15 Er mwyn galluogi'r ACLI i fodloni gofynion y ddyletswydd o ran bioamrywiaeth a gwydnwch yr ecosystem, bydd angen asesu effeithiau datblygiad ar wydnwch yr ecosystem. Lle bo hynny'n berthnasol, fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynir i gefnogi cais cynllunio, felly, bydd disgwyl bod datblygwyr yn darparu gwybodaeth addas ynghylch gwydnwch yr ecosystem (h.y. ystyried y pwyntiau y cyfeiriwyd atynt uchod).

5 . Gweithredu'r Polisi

Llun 5.3 Perth, Bryncoch



5.1.16 Dylid nodi na fernir bod angen i asesiadau o'r fath gael eu hystyried ar gyfer pob cais, gan fod llawer o ddatblygiadau (yn enwedig rhai gan berchnogion tai a datblygiadau llai) yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ecosystemau. Mae'n fwy tebygol y bydd angen asesiad o'r fath ar ddatblygiadau mwy o faint neu ddatblygiadau mewn lleoliadau sensitif, lle nodwyd eisoes bod yr effeithiau bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth yn debygol o fod yn arwyddocaol. Mae'n bwysig, felly, ceisio cyngor cyn-ymgeisio er mwyn canfod a fydd angen asesiad o'r fath, ac os felly, sicrhau bod holl gwmpas yr wybodaeth y mae angen ei darparu i lywio'r asesiad hwn yn cael ei gytuno cyn gynted â phosibl.

5.1.17 Gellid rhoi ystyriaeth i wydnwch yr ecosystem trwy gymhwyso dull gweithredu seilwaith werdd i'r datblygiad. ⁽¹⁶⁾

Ymdrin ag Effeithiau Niweidiol

5.1.18 Os ceir bod budd amlwg i safle o safbwynt bioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth, bydd gofyn bod y datblygwr yn cynnwys mesurau digonol i ddiogelu'r budd hwnnw. Os bernir bod y mesurau'n annigonol, mae hynny'n debygol o effeithio ar y penderfyniad ynghylch y cais.

5.1.19 Unwaith mae gwybodaeth bioamrywiaeth/geoamrywiaeth addas ar gael ar gyfer y safle, dylid ceisio cyngor cyn-ymgeisio pellach ynghylch cynlluniau addas ar gyfer amddiffyn, lliniaru, gwneud iawn a gwella'r budd a nodwyd. Gallai fod yn fuddiol paratoi

16 Mae canllawiau pellach ar 'Asesu Gwydnwch yr Ecosystem' yn cael eu datblygu gan Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol a Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol.

'Cynllun Cyfyngiadau Ecolegol a Chyfleoedd' (ECOP), fel y nodwyd yn y Safon Brydeinig, i lywio'r trafodaethau hyn a chamau dilynol dyluniad y datblygiad a'r broses gynllunio, a gellir ei ddiweddarau ar hyd y broses.

5.1.20 Wrth ddylunio unrhyw gynnig datblygu, dylai **osgoi niwed** fod yn un o'r nodau allweddol, a hynny trwy amddiffyn cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol pwysig, ac osgoi effeithiau arnynt gymaint â phosibl. Yn benodol, dylai datblygwyr wneud y canlynol:

- Osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol (gan gynnwys SINCs a RIGS) a rhywogaethau a amddiffynnir.
- Osgoi effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth a nodwyd yn y CGBLI ac o dan A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Cadw cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion presennol sy'n bwysig o ran cadwraeth natur yng nghynllun y safle a dyluniad y datblygiad.
- Osgoi ynysu cynefinoedd a rhywogaethau presennol o fewn y datblygiad trwy ddarparu cysylltiadau â chynefinoedd cyfagos (h.y. coridorau bywyd gwyllt). Gallai'r rhain gynnwys perthi, cerrig camu neu gynefinoedd addas ar gyfer rhywogaethau mwy symudol.
- Dylunio draeniad yn ofalus er mwyn peidio ag effeithio ar gynefinoedd hydrolegol sensitif, megis coetir gwlyb, corstir a glaswelltir corsiog.
- Cadw a mewnosod asedau seilwaith werdd allweddol i ddylunio y datblygiad er mwyn cynnal gweithrediad y seilwaith werdd ar y safle ac yn yr amgylchedd ehangach.

5.1.21 Mewn achosion lle na ellir ymgorffori osgoi niwed i fioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth i ddylunio datblygiad, gall fod yn bosibl lleihau neu leiafu'r effeithiau niweidiol ar rywogaethau a chynefinoedd a nodweddion eraill i lefel dderbyniol trwy **fesurau lliniaru**. Dylai'r mesurau hyn geisio cynnal gwerth bioamrywiaeth / geoamrywiaeth cyffredinol y safle, y nodwedd benodol (os yw'n ymwneud â SINCs neu RIGS) a'r rhydwraith ecolegol ehangach y mae'r safle'n rhan ohono Gall y lliniaru gynnwys⁽¹⁷⁾

- Cwblhau gwaith ar adegau priodol o'r flwyddyn i osgoi amharu ar rywogaethau, megis adar sy'n bridio

5 . Gweithredu'r Polisi

- Ymgorffori parthau clustogi rhwng ardaloedd sensitif a datblygiad i leihau amharu ar gynefinoedd neu nodweddion daearegol ac aflonyddu arnynt (e.e. defnyddir parth clustogi 7m fel arfer ar gyfer dyrffyrdd).
- Dylunio seilwaith newydd fel ffyrdd, pontydd a draeniad i ganiatáu i fywyd gwyllt symud (e.e. trwy ddarparu isffyrdd neu silffoedd i fywyd gwyllt) ac i sicrhau bod gweithrediad y seilwaith werdd yn cael ei gynnal.
- Trawsleoli rhywogaethau o gynefinoedd sydd i'w dinistrio i safle addas i'w derbyn (e.e. symud amffibiaid o bwll i un tebyg gerllaw).

5.1.22 Bydd digonolrwydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn cael ei asesu'n ofalus gan yr ACLI, a dylid nodi nad yw eu darparu ynddo'i hun yn golygu y rhoddir caniatâd cynllunio. Bydd angen dangos effeithiolrwydd a chyflawnadwyedd unrhyw gynigion lliniaru yn ddigonol i sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn gyflawnadwy. Lle bo angen ARhC ar gyfer cynigion a allai effeithio ar safle a ddynodwyd ar lefel Ewropeaidd neu Ryngwladol, mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn pennu gofynion ychwanegol, ac mae'n bosibl na fydd lleiafu'r effeithiau niweidiol yn unig yn ddigonol ynddo'i hun.

Llun 5.4 To Byw (Hawffraint Chris Jones)



5.1.23 Os bydd *popeth arall wedi methu*, mewn achosion lle na ellir osgoi colli bioamrywiaeth er gwaethaf mesurau lliniaru, bydd angen cytuno ar ffordd o **wneud iawn** am y golled weddilliol a rhoi hynny ar waith. Ni fydd mesurau gwneud iawn yn cael eu hystyried ond yn achos datblygiadau sy'n gallu dangos bod yr holl fesurau osgoi a lliniaru wedi bod yn destun ymchwiliad yn gyntaf.

5.1.24 Dylid nodi na fydd cynefinoedd a greir neu a ailgreir o reidrwydd yn gwneud iawn am golli cynefin sydd eisoes yn bodoli, mae hynny wedi'i seilio ar y ffaith y gall cynefin a luniwyd yn artiffisial fod o ansawdd is na'r cynefinoedd presennol, gan na ellir cyflawni amrywiaeth o rywogaethau ond dros gyfnod sylweddol o amser. Mae mesurau gwneud iawn, felly, yn annhebygol o fedru efelychu ansawdd y budd bioamrywiaeth a gollwyd, ac felly ni fyddant yn cael eu hystyried ond pan fydd popeth arall wedi methu, ac maent i'w cymhwyso dim ond lle na ellir lleoli'r datblygiad yn rhesymol mewn man arall, a lle bernir bod manteision datblygiad yn ddigon arwyddocaol i orbwyso pwysigrwydd y budd bioamrywiaeth.

5.1.25 O ganlyniad, ni chaniateir i ddatblygiad fynd rhagddo, gyda mesurau gwneud iawn neu hebddynt, lle na chyfiawnheir budd gor-redol o'r fath. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso, yn arbennig, i gynlluniau lle nodir cynefinoedd/rhywogaethau SINCS neu CGBLI/A7 ar safle datblygu. Gall gwneud iawn gynnwys y canlynol:

- Creu, ailgreu, neu adfer cynefinoedd ar y safle neu ar ddarnau eraill o dir. Bydd angen i leoliadau a chwmpas cynefin amnewid o'r fath weithredu'n ecolegol (e.e. bydd gofyn bod cysylltiad ecolegol rhyngddynt a chynefinoedd eraill tebyg).
- Newid dyluniad y safle i gynnwys nodweddion a fyddai'n gwneud iawn, a allai gynnwys gwelliannau i werth cadwraeth y safle.
- Gwirfoddoli rhwymedigaethau cynlluniau i sicrhau mesurau o'r fath.
- Creu asedau seilwaith werdd newydd sy'n cyfrannu at weithrediad seilwaith werdd ehangach y safle a'r amgylchedd o'i gwmpas.

5 . Gweithredu'r Polisi

Llun 5.5 Mesurau Gwneud iawn Prenergy ar gyfer Gwennol y Traeth, Dociau Port Talbot (Hawlfraint Barry Stewart)



5.1.26 Er mwyn cynorthwyo datblygwyr i ddarparu mesurau gwneud iawn digonol, sy'n gweithredu ar lefel ecolegol, mae 'Cynllun Gwneud iawn ar gyfer Bioamrywiaeth' wedi cael ei ddatblygu i Gastell-nedd Port Talbot, gyda'r nod o leihau'r baich ar ddatblygwyr, yn arbennig yng nghyswllt sicrhau safleoedd gwneud iawn addas oddi ar y safle a rhoi'r gwaith rheoli angenrheidiol ar waith. Nod arall i'r cynllun yw ceisio sicrhau bod y mesurau gwneud iawn yn canolbwyntio ar ddarparu'r manteision bioamrywiaeth mwyaf. Ceir rhagor o fanylion ynghylch y Cynllun Gwneud iawn am Fioamrywiaeth yn **Atodiad D**.

5.1.27 Dylid nodi, fodd bynnag, na ellir amnewid rhai cynefinoedd a gollir, megis coetir hynafol, coetir gwlyb, corsydd neu dwyni tywod, ac felly mae'n amhosibl gwneud iawn amdanynt, ac felly dylid osgoi effeithio ar gynefinoedd o'r fath mewn unrhyw ddatblygiad.

Cyfleoedd i Wella

5.1.28 Dylai pob cynnig datblygu, p'un a oes angen ymgorffori mesurau lliniaru neu wneud iawn neu beidio, geisio darparu manteision ychwanegol neu gyfleoedd 'gwella' ar gyfer bioamrywiaeth a/neu geomrywiaeth. Gallai mabwysiadu dull gweithredu o'r fath

ddarparu manteision ychwanegol, megis llai o effaith weledol, llai o berygl llifogydd a gwelliannau i ddraeniad. Yn hyn o beth, dylai datblygwyr geisio darparu nodweddion fel y canlynol⁽¹⁸⁾

Manteision newydd posib

- ✓ Ardaloedd cynefin newydd, megis coetir, prysg, glaswelltir neu byllau.
- ✓ Ymgorffori manau agored a thirlunio fel bod plannu o fewn yr ardaloedd hyn yn creu coridorau bywyd gwyllt.
- ✓ Cyfleoedd i ystlumod, gwenoliaid, gwenoliaid duon, gwenoliaid y bondo, tylluanod gwyn, neu rywogaethau eraill nythu neu glwydo ar adeiladau newydd.
- ✓ Toeon glas/brown i ddarparu cynefinoedd ychwanegol a chyfleoedd i adar nythu, os bydd prinder lle.
- ✓ Adfer safleoedd mwynau a thirlenwi i greu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth, megis glaswelltir â chyfoeth o rywogaethau, gwelyau cyrs neu weundir.
- ✓ Systemau draenio cynaliadwy ar sail gwelyau cyrs a phyllau fel bod hyd yn oed system ddraenio safle yn werthfawr o safbwynt bioamrywiaeth.
- ✓ Trywyddau a byrddau dehongli sy'n darparu gwybodaeth addysgiadol ynghylch nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

Cynlluniau Ynni Gwynt

5.1.29 Ceir canllawiau penodol ar gyfer cynlluniau ynni gwynt o ran y materion i'w hystyried, ymdrin ag effeithiau niweidiol a chyfleoedd i wella yn **Atodiad C**.

5.2 Cyflwyno Cais Cynllunio

5.2.1 Dylai'r cais cynllunio a gyflwynir adlewyrchu'r gofynion o ran gwybodaeth fel y'u sefydlwyd yn y cyfnod trafod cyn-ymgeisio. Bydd hyn yn caniatáu i'r broses gynllunio fynd rhagddi'n ddi-rwystr ac yn lleihau'r perygl y bydd angen darparu gwybodaeth bellach ar ôl cyflwyno cais.⁽¹⁹⁾

5.2.2 Mae'r ACLI yn gofyn bod gwybodaeth ddigonol ynghylch bioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth yn cael ei darparu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Os bydd angen gwybodaeth bellach, gall hynny arwain at oedi yn y penderfyniad neu wrthod y cais ar sail

18 Ceir enghreifftiau pellach yn y 'Canllaw' a baratowyd gan y Cyngor.

19 Mae cyngor ar sut mae ateb y cwestiynau cysylltiedig â bioamrywiaeth ar y Ffurflen Cais Cynllunio wedi'i gynnwys yn y 'Canllaw' a baratowyd gan y Cyngor.

5 . Gweithredu'r Polisi

diffyg gwybodaeth ddigonol. Dylid nodi, fodd bynnag, o ganlyniad i'r broses ymgynghori statudol ag ymgynghoreion perthnasol [e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)], y gall fod gofyn darparu gwybodaeth bellach.

5.2.3 Ymhellach, gall 'Cynllun Cyfyngiadau Ecolegol a Chyfleoedd' (ECOP), fel y nodir yn y Safon Brydeinig, ddarparu crynodeb gweledol defnyddiol o'r wybodaeth ecolegol a gyflwynwyd yn yr adroddiadau ecolegol a gyflwynwyd, a gall gynorthwyo a chyflymu'r broses o ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd.

5.2.4 Trwy sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu fel rhan o'r cais a gyflwynir yn dilyn trafodaeth fanwl cyn-ymgeisio, cyfyngir gymaint â phosibl ar y galw am ddarparu gwybodaeth bellach cyn bod y datblygiad yn cychwyn (e.e. cynlluniau lliniaru). Gall oedi difrifol ddigwydd cyn gweithredu datblygiad wrth ddisgwyl am gyflawni amodau cyn cychwyn, ac felly, lle bo modd, dylai gwybodaeth o'r fath gael ei darparu fel rhan o'r cais a gyflwynwyd.


Llun 5.6 Afon Tawe, Ger Ystalyfera



5.2.5 Lle bo effeithiau niweidiol sylweddol ar fioamrywiaeth neu geoamrywiaeth yn parhau'n anochel, a lle na fernir eu bod yn derbyn sylw digonol yn y cam cyflwyno, gall yr ACLI ystyried bod gwrthod y cais yn briodol. Fodd bynnag, bydd angen i'r penderfyniad ystyried pob agwedd arall ar y datblygiad, ac yn arbennig a yw'r manteision eraill sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn gorbwyso'r effaith niweidiol ar fioamrywiaeth neu geoamrywiaeth.

Ffigwr 5.2 Crynodeb o'r Gofynion Cyflwyno

5.3




Penderfyniad / Dyfarniad

5.3.1 Gall effeithiau datblygiad ddod i'r amlwg mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Er enghraifft, gallai datblygiad arwain at golli cynefinoedd yn uniongyrchol, neu golli cynefinoedd sy'n cynnal rhywogaethau pwysig; darnio neu golli cysylltedd rhwng cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau; newid systemau fel hydroleg y mae ecosystem yn dibynnu arnynt. Bydd y gofyniad i liniaru a/neu wneud iawn am effeithiau sylweddol, felly, yn benodol i'r datblygiad a'r safle.

5 . Gweithredu'r Polisi

Ffigwr 5.3 Cyhoeddi Caniatâd Cynllunio a Gweithredu



5.3.2 Mewn llawer o achosion lle rhoddir caniatâd cynllunio, gall fod angen amodau neu rwymedigaethau cynllunio i ymdrin ag effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth, beth bynnag yw math neu raddfa'r datblygiad. Rhesymau posibl am y rhain yw sicrhau mesurau diogelu, lliniaru a gwneud iawn digonol, fel bod y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio, a gall hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal a rheoli mesurau o'r fath dros amser, yn ogystal â monitro'u llwyddiant. Gall methu â chydymffurfio â'r amodau a osodwyd ar ganiatâd cynllunio olygu bod y datblygiad yn cael ei farnu'n anghyfreithlon, a allai yn ei dro arwain at risg cymryd camau gorfodi yn erbyn y tirfeddiannwr/datblygwr.

5.3.3 Rhwymedigaethau Cynllunio yw cytundebau cyfreithiol rwymol rhwng y datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio neu gytundeb unochrog gan y datblygwr a orfodwyd gan yr Awdurdod Cynllunio o dan A106 o Ddeddf Cynllunio 1990, sy'n cynnwys ymrwymiad i roi sylw i effeithiau datblygiad er mwyn ei wneud yn dderbyniol o safbwynt cynllunio, lle gallai gael ei wrthod fel arall.⁽²⁰⁾ Bydd rhwymedigaethau o'r fath fel arfer yn ofynnol lle bo darpariaethau gwneud iawn oddi ar y safle yn angenrheidiol, neu lle bo angen cyfraniadau ariannol i sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth pwysig.

5.3.4 Isod nodir y mathau o amodau cynllunio y gellid eu defnyddio'n nodweddiadol mewn perthynas â chynlluniau bioamrywiaeth/geoamrywiaeth⁽²¹⁾, ynghyd â rhestr o'r mecanwaith rhwymedigaethau cynllunio, a allai fod yn fwy hyblyg.

Amodau - gall y rhain helpu i sicrhau amcanion bioamrywiaeth trwy nifer o fecanweithiau:

- Cyfyngu neu reoleiddio (e.e. cyfyngu gweithrediadau i dymhorau penodol er mwyn osgoi effeithio ar rai rhywogaethau).
- Gofyn bod manylion neu gynlluniau pellach yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo [e.e. cynlluniau rheoli a monitro amgylcheddol neu ecolegol; cynlluniau tirlunio; cynlluniau rheoli adeiladwaith amgylcheddol; neu ddatganiadau dull gweithredu bioamrywiaeth (lle na ddarparwyd hynny fel rhan o'r cais a gyflwynwyd)].
- Gofyn bod rhai nodweddion, neu gynefin sydd eisoes yn bodoli, yn cael eu cadw a'u diogelu o fewn datblygiad.
- Gofyn bod tir yn cael ei adfer, neu bod ôl-ofal ar ei gyfer (er enghraifft wedi echdynnu mwynau neu ar safleoedd gwaredu gwastraff).
- Cyfyngu ar barhad datblygiad cyfan neu ran ohono.
- Gofyn bod rheolaeth a gwaith cynnal a chadw priodol yn digwydd am gyfnod penodol.
- Gofyn bod cynefinoedd sydd newydd eu creu yn cael eu monitro, a hefyd lwyddiant mesurau lliniaru neu wneud iawn.
- Gofyn bod trwydded rhywogaeth a amddiffynnir yn cael ei gyflwyno, neu bod prawf o'i derbyn. derbyn.
- Gofyn bod parthau clustogi cynefinoedd presennol yn cael eu cadw (e.e. afonydd).

Rhwymedigaethau Cynllunio - mae'r rhain yn arbennig o briodol i ddarparu ar gyfer y canlynol:

- Mynediad i nodwedd o ddiddordeb bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth.
- Cynefinoedd newydd neu hyd yn oed warchodfeydd natur neu gronfeydd daearegol.

5 . Gweithredu'r Polisi

- Systemau monitro a'r dull o adrodd, adolygu ac addasu mesurau lliniaru, gwneud iawn a monitro.
- Rheoli cynefin neu nodwedd, ar y safle neu oddi arno, am gyfnod o amser.
- Darpariaethau ariannol er mwyn sefydlu neu reoli cynefin, gwarchodfa natur neu gronfa neu nodwedd daearegol.
- Deunydd gwybodaeth a dehongli ynghylch nodweddion bioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth sy'n bresennol.
- Amlygu creigiau neu ffosiliau newydd.
- Cynlluniau trawsleoli cynefinoedd neu rywogaethau.

Cyd-drafod Cyfraniadau A106

5.3.5 Wrth roi cyfrif am yr amrywiaeth o rwymedigaethau cynllunio y gellir eu gosod ar unrhyw gynig penodol, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau pryd y bydd datblygwr yn barnu nad yw'r gofynion o ran lliniaru a/neu wneud iawn o safbwynt bioamrywiaeth/geomrywiaeth yn ddichonadwy.

5.3.6 O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn ystyried, yn amodol ar arfarniad ariannol manwl, gyfraniadau is, taliadau graddol, neu ddileu'r gofyniad i gyfrannu at liniaru a/neu wneud iawn. Yn gynnar yn y trafodaethau cyn-ymgeisio, anogir datblygwyr i ymglyfarwyddo â'r holl rwymedigaethau cynllunio, gan gynnwys y gofyniad i liniaru a/neu wneud iawn, a nodi unrhyw faterion dichonoldeb wrth baratoi eu cais.

5.3.7 Dylid nodi na fydd unrhyw ofyniad i gyfrannu at ofynion seilwaith eraill (fel y'u hamlinellwyd yn CCA Rhwymedigaethau Cynllunio y Cyngor) o ganlyniad i'r datblygiad yn dileu'r angen am liniaru a/neu wneud iawn. **Mae angen i ddatblygwyr ystyried y costau sy'n gysylltiedig â darparu gofynion lliniaru a/neu wneud iawn a rhwymedigaethau eraill cyn cychwyn ar gyd-drafodaethau ynghylch tir.**

5.4 Monitro, Rheoli ac Adolygu

Monitro a Rheoli Cynlluniau/Safleoedd

5.4.1 Wrth roi cynllun datblygu ar waith bydd rhaid cydymffurfio'n llawn â'r amodau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio. Ar ben hynny, gall fod angen datblygu arferion gwaith i leiafu'r risgiau i'r buddiant bioamrywiaeth/geomrywiaeth a nodwyd. Bydd angen i raglenni gwaith ystyried natur dymhorol rhywogaethau, er enghraifft, neu a allai fod angen cyflogi 'Clerc Gwaith Ecolegol' i gadw llygad ar y gwaith lliniaru.

5.4.2 Mae'r 'Safon Brydeinig' a 'Chymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu' yn cyflwyno canllawiau ar gyfer dulliau a mesurau gwaith ar safle datblygu lle ceir bioamrywiaeth, gan gynnwys cynnwys a awgrymir ar gyfer 'Cynlluniau Rheoli

Amgylcheddol wrth Adeiladu' ac 'Asesiadau Risg', manylion ynghylch trefnu parthau dim mynediad, ffensys amddiffynnol a mesurau ymarferol eraill. Os bydd cymaint o fioamrywiaeth/geoamrywiaeth ar y safle fel bod angen goruchwyllo'r gwaith yn briodol, gellir cyflogi Clerc Gwaith Ecolegol ⁽²²⁾

5.4.3 Lle cyflwynwyd mesurau i amddiffyn, lliniaru, gwneud iawn neu wella bioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth fel rhan o ganiatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd gofyn bod datblygwyr yn darparu ar gyfer eu monitro a'u rheoli yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi hynny, er mwyn sicrhau bod yr amcanion bioamrywiaeth/geoamrywiaeth yn cael eu cyflawni.

5.4.4 Y bwriad wrth fonitro yw gwirio cydymffurfiaeth ag amodau neu rwymedigaethau cynllunio a chanfod a yw'r mesurau a roddwyd ar waith yn effeithiol ac yn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig. Yna bydd canlyniadau'r monitro'n llywio unrhyw gamau adferol angenrheidiol sydd i'w cymryd i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni. Mae'r mathau o ofynion monitro a rheoli bioamrywiaeth y gall fod angen i ddatblygwyr eu darparu wedi'u nodi isod. ⁽²³⁾

Monitro a Rheoli

Dylid cynnal y gwaith monitro a rheoli gyhyd â phosib er mwyn sicrhau bod cynefinoedd yn cael eu sefydlu neu bod eu hansawdd yn cael ei gynnal. Fel arfer byddai angen isafswm o 5 mlynedd ar gyfer cynlluniau monitro a rheoli, gyda'r monitro'n gwirio effeithlonrwydd y mesurau rheoli. Yn achos cynlluniau sy'n ymwneud â chreu ac adfer cynefinoedd neu yn gyffredinol yn achos pob safle gwneud iawn oddi ar y safle, fodd bynnag, mae'n arferol i'r monitro a'r rheoli fod yn ofynnol am isafswm o 15 mlynedd. ⁽²⁴⁾

Gall fod angen darparu 'Cynllun Rheolaeth a Monitro Ecolegol', a dylai hwnnw gynnwys:

- Disgrifiadau o'r cynefin, y rhywogaethau neu'r nodweddion sydd i'w monitro a'u rheoli.
- Nodau'r rheolaeth.
- Manylion y gwaith rheoli sydd i'w wneud yn ystod y cyfnod y cytunwyd arno, gan gynnwys dulliau ac amseriadau.
- Manylion gwaith monitro, fel arfer gan gynnwys cytundeb i gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, dulliau, lleoliadau ac amseriadau.
- Manylion cyswllt y sefydliad sy'n gyfrifol am y gwaith monitro a rheoli.
- Cynigion ar gyfer rheoli'r safle yn y tymor hir.

22 Mae'r Safon Brydeinig yn cyflwyno rhestr ddefnyddiol o ddyletswyddau ar gyfer swydd o'r fath.

23 Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cwmpas Cynllun Monitro yn y Safon Brydeinig.

24 "Yn achos datblygiad yn y Deyrnas Unedig, y disgwyl yw y bydd safleoedd gwneud iawn yn cael eu sicrhau o leiaf ar gyfer oes y datblygiad (e.e. yn aml 25-30 mlynedd), gyda'r amcan o reoli Enillion Net yn parhau i'r dyfodol." Enillion Net i Fioamrywiaeth. Egwyddorion arfer da wrth ddatblygu. Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu, y Sefydliad Rheolaeth Amgylcheddol ac Asesu, 2016

5 . Gweithredu'r Polisi

- Mekanwaith ar gyfer monitro newid net o ran bioamrywiaeth/geoamrywiaeth a diweddarau'r asesiad colledion ac enillion.
- Mekanwaith ar gyfer adolygu a diweddarau'r cynllun er mwyn sicrhau bod modd cyflawni camau gweithredu adferol trwy drefniadau rheoli addasol.

5.4.5 Yn achos datblygiadau ar raddfa fach efallai na fydd angen gwneud gwaith monitro hir dymor, yn hytrach ni fydd ond angen cadarnhau bod y mesurau osgoi/lliniaru/gwneud iawn neu wella angenrheidiol wedi cael eu cyflawni (e.e. darparu blychau adar neu ystlumod). Fel yr awgrymwyd yn y Safon Brydeinig, mae'n bosibl mai datganiad byr yn cadarnhau bod y mesurau y cytunwyd arnynt wedi cael eu gweithredu, wedi'i lofnodi gan ecolegydd cymwys, fydd y cyfan sy'n angenrheidiol mewn achosion o'r fath i ddangos cydymffurfiaeth â'r caniatâd cynllunio.

5.4.6 Bydd canlyniadau'r monitro yn llywio dyluniad mesurau bioamrywiaeth/geoamrywiaeth yn y dyfodol, a pha mor dderbyniol ydynt ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol wrth symud ymlaen. Bydd monitro canlyniadau hefyd yn rhoi i'r Cyngor wybodaeth berthnasol i lywio sut mae'r broses gynllunio a'r CDLI yn cyfrannu at gyflawni'r dyletswyddau statudol a'r ymrwymadau a nodwyd ym **Mhennod 3**.

Llun 5.7 Gwarchodfa Natur Selar, Blaengwrach



Monitro ac Adolygu'r CDLI

5.4.7 Yn unol â'r strategaeth a nodwyd yn y CDLI, bydd y Cyngor yn disgwyl i ddatblygiad yn y dyfodol beidio â chreu colled net o ran ansawdd na swm bioamrywiaeth, a lle bynnag y bo modd, bydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei wella, gan sicrhau enillion net i fioamrywiaeth yn sgîl hynny. Bydd gweithrediad polisiau yn cael ei fonitro a'i adrodd yn Adroddiad Monitro Blyneddol y CDLI.

6 Manylion cyswllt

Rheoli Datblygu

[Y prif bwynt cyswllt ar gyfer pob cais cynllunio ac ar gyfer cyngor cyn-ymgeisio]

Steve Ball [Rheolwr Datblygu - Cynllunio]: Ffôn: 01639 686727

Nicola Lake [Arweinydd Tîm - y Dwyrain]: Ffôn: **01639 686737**

Chris Davies [Arweinydd Tîm - y Gorllewin]: Ffôn: 01639 686726

E-bost: planning@npt.gov.uk

Polisi Cynllunio

[Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r CDLI a Pholisi Cynllunio]

Ceri Morris [Rheolwr Polisi Cynllunio]: Ffôn: 01639 686320

Lana Beynon [Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio]: Ffôn: 01639 686314

E-bost: ldp@npt.gov.uk

Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt

[Yn achos ymholiadau sy'n ymwneud â gofynion bioamrywiaeth]

Rebecca Sharp [Ecolegydd]: Ffôn: 01639 686149

E-bost: biodiversity@npt.gov.uk

6 . Manylion cyswllt

Atodiad A Meini Prawf SINC

A.0.1 Mae'r arfer o ddefnyddio Safleoedd Lleol yn fodd i ganfod yr ardaloedd pwysicaf o safbwynt adnoddau bioamrywiaeth oddi mewn i ardal weinyddol benodol wedi hen ennill ei blwyf yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghymru. Ceir cyfeiriad penodol at safleoedd o'r fath yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru⁽²⁵⁾, Polisi Cynllunio Cymru⁽²⁶⁾ a Nodyn Cyngor Technegol 5 (TAN 5)⁽²⁷⁾

A.0.2 Mae TAN 5 yn gofyn bod safleoedd o'r fath yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael eu dethol ar sail meini prawf llym, sef 'Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru'⁽²⁸⁾, a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gyda rhai newidiadau lleol i adlewyrchu'r adnodd bioamrywiaeth lleol. Mae'r detholiad wedi'i seilio ar flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) a Chynllun Cymru. Ar ben hynny, gall cynefinoedd a rhywogaethau eraill sydd heb eu cynnwys yn y CGBLI hefyd fod yn rhan o'r meini prawf os bernir eu bod yn cyfrannu'n sylweddol i'r adnodd bioamrywiaeth lleol (gweler Adran 3.2).

A.0.3 Mae 'Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot'⁽²⁹⁾ wedi ffurfio panel o arbenigwyr perthnasol i reoli'r broses o nodi SINC. Bydd y Panel yn cymhwyso 'Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru', gyda mân newidiadau, i'r meini prawf er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Isod ceir y meini prawf diwygiedig ar gyfer dethol. Bydd angen nifer o flynyddoedd i orffen asesu pob safle posibl yng Nghastell-nedd Port Talbot oherwydd bod angen casglu gwybodaeth fanwl er mwyn gwerthuso safleoedd yn erbyn y meini prawf.

A.0.4 Gan na fuasai asesiad cynhwysfawr yn bosibl o fewn yr amserlenni oedd yn ofynnol ar gyfer y CDLI, hyd yma mae'r asesiad wedi targedu ardaloedd y gellid eu datblygu (h.y. y safleoedd hynny sydd wedi'u dyrannu a/neu i raddau helaeth o fewn neu'n agos at derfynau anheddiad).

A.0.5 Mae hyn, ynghyd â safleoedd oedd eisoes yn gallu darparu gwybodaeth a fyddai'n golygu eu bod yn cymhwyso'n awtomatig fel SINC (e.e. coetir hynafol), yn darparu man cychwyn rhesymol ar gyfer dynodi safleoedd SINC yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r broses hefyd wedi canolbwyntio ar adnabod safleoedd SINC seiliedig ar gynefinoedd, gan y byddai llawer o rywogaethau hefyd yn gysylltiedig â safleoedd o'r fath, ond bydd angen hefyd i safleoedd SINC eraill rhywogaeth-benodol gael eu nodi yn ddiweddarach.

A.0.6 Bydd gwaith yn parhau i nodi safleoedd a'u monitro ar ôl mabwysiadu'r CDLI, ac yn sgîl hynny, ni ddylid ystyried y rhestr bresennol o safleoedd yn un derfynol, gan fod yr wybodaeth yn cynrychioli ciplun amser. Bydd y gofrestr safleoedd yn destun adroddiad blynyddol ac yn cael ei diweddarau gan Dîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt y Cyngor, a bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd trwy'r Ganolfan Cofnodion Lleol.⁽³⁰⁾

25 Strategaeth Amgylcheddol Cymru (2006) - Llywodraeth Cymru.

26 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (2016) - Llywodraeth Cymru.

27 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) - Llywodraeth Cymru.

28 Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru – *Canllaw i Ddatblygu System Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yng Nghymru* (2008) - Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

29 Yr enw blaenorol oedd 'Fforwm Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot'.

30 Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBRC).

A.0.7 Bydd unrhyw safle sy'n bodloni'r meini prawf, ond sydd heb ei ddynodi'n SINC eto, yn cael ei ystyried yn yr un modd gan y Cyngor yn y broses gynllunio â'r rhai a nodwyd eisoes.

A.0.8 Yn achos y safleoedd hynny a nodwyd yn SINC eisoes, mae llawer iawn o waith i goladu gwybodaeth fioamrywiaeth sydd eisoes yn bodoli, ynghyd â gwaith arolygon ecolegol manwl, wedi cael ei wneud er mwyn medru asesu pob safle yn erbyn y meini prawf.

A.0.9 Bydd diweddariadau i'r gofrestr yn cael eu llywio gan y broses adolygu flynyddol, a all ychwanegu safleoedd newydd neu ddileu safleoedd presennol os bernir nad ydynt bellach yn bodloni'r meini prawf asesu. Oherwydd y nifer presennol o safleoedd SINC a nodwyd a'r rhai sydd heb eu hystyried eto, cyfran yn unig o'r safleoedd SINC fydd yn cael eu monitro bob blwyddyn. O ystyried na fernir ei bod yn debygol y bydd y data a gasglwyd ar gyfer y safleoedd SINC presennol yn newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd cyntaf, y ffocws cychwynol fydd nodi safleoedd newydd yn hytrach na monitro.

A.0.10 Mae Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru yn cadw rhestr lawn a manylion pob SINC a nodwyd.

Meini Prawf SINC

A.0.11 Mae Meini Prawf SINC Cymru yn berthnasol⁽³¹⁾. Mae'r wybodaeth isod yn amlygu'r newidiadau lleol i'r meini prawf fel y'u cytunwyd gan Banel 'Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot'.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ADOLYGU'R CANLLAWIAU AR GYFER DETHOL SAFLEOEDD LLEOL YNG NGHYMURU (2008)

A.0.12 Mae '*Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru - Canllaw i Ddatblygu System Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yng Nghymru (2008)*' yn cyflwyno set gyffredin o ganllawiau manwl ar gyfer dethol Safleoedd Bioamrywiaeth Lleol yng Nghymru⁽³²⁾, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Powys, acYmddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru. Mae'r canllawiau yn darparu fframwaith y mae Partneriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol unigol / Awdurdodau Cynllunio Lleol yn rhydd i fireinio'u meini prawf manwl eu hunain oddi mewn iddynt, er mwyn dethol a dynodi Safleoedd Lleol oddi mewn i'w ffiniau gweinyddol. O ganlyniad dylid cael system Safleoedd Bywyd Gwyllt gadarn, y gellir ei hamddiffyn, sy'n briodol i'w chymhwyso gan bob ardal CGBLI yng Nghymru, ac eto'n ddigon hyblyg i fedru cael ei thdeilwra i adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau lleol.

31 Cyfeiriwch at wefan 'Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru' i weld rhestr lawn o'r meini prawf [Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru - Canllaw i Ddatblygu System Safleoedd Bywyd Gwyllt yng Nghymru (2008 - Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru)].

32 Mae'r Canllaw wedi'i seilio ar gyfuniad o'r meini prawf manwl ar gyfer y tair system ofodol ar wahân a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru

A.0.13 O ganlyniad, sefydlwyd Panel Adolygu Meini Prawf SINC (yn cynnwys arbenigwr rhywogaeth ar gyfer pob grŵp megis adar, infertebratau, planhigion ac ati), a bu'n adolygu'r canllawiau er mwyn sicrhau bod y meini prawf yn briodol yn y cyd-destun lleol. Cyflwynir y newidiadau i'r canllawiau isod.

Newidiadau ac Ychwanegiadau

Canllawiau Cynefinoedd

A.0.14 Dim newidiadau i'r canllawiau dethol cynefinoedd.

Canllawiau Rhywogaethau

[A1] MAMALIAID [Adolygwyd gan Dan Forman (UWS)]

A.0.15 Dim newid i'r canllawiau Cymraeg.

[A2] ADAR [Adolygwyd gan Heather Coates (GOS)]

A.0.16 Gwybedog mannog - Bydd poblogaethau bridio (Tabl 2) y rhywogaeth hon yn cael eu hystyried fel dynodiad (rhestr A) tuag at ddethol safle er mwyn rhoi cyfrif am ei dirywiad sylweddol yn ddiweddar.

A.0.17 Corhedydd y Waun - Bernir bod poblogaethau bridio (Tabl 2) o'r rhywogaeth hon yn cyfrannu (rhestr B) tuag at ddethol safle gan gydnabod ei bod yn rhywogaeth letya bwysig ar gyfer y Gog Gyffredin (rhywogaeth rhestr A) (fel y mae'n lletywr pwysig i'r Gog).

A.0.18 Mae'r meini prawf ar gyfer Adar yn cael eu hadolygu ymhellach ar hyn o bryd a byddant yn cael eu diweddarau yn 2018.

[A3] YMLUSGIAID [Adolygwyd gan Mark Barber (SWWARG)]

A.0.19 Gwiber - Er mwyn cydnabod prinder a statws Gwiberod, sydd dan fygythiad, byddwn yn ystyried cofnodi un neu fwy o unigolion ar hanner neu fwy o achlysuron yr arolwg er mwyn dynodi presenoldeb 'poblogaeth dda'.

[A3] AMFFIBIAID

A.0.20 Madfall Llyfn - Gan gydnabod prinder Madfallod Llyfn yng Nghastell-nedd Port Talbot, bernir bod poblogaeth 'dda' o'r rhywogaeth hon ar ôl cyfrif 25 o oedolion yng ngolau fflachlamp, tra bernir bod poblogaeth 'eithriadol' ar ôl cyfrif 50 o oedolion.

A.0.21 Broga Cyffredin - Bernir bod clystyrau o griff yn cyfateb i nifer yr oedolion unigol yn achos Brogaod Cyffredin, felly bernir bod poblogaeth 'dda' o'r rhywogaeth hon ar ôl cyfrif 100 o oedolion neu 100 clwstwr o griff, tra bernir bod poblogaeth 'eithriadol' ar ôl cyfrif 500 o oedolion neu 500 clwstwr o griff.

A.0.22 Madfall Cribog Mawr - Un o rywogaethau'r CGBLI, ac yn eithriadol o brin yng Nghastell-nedd Port Talbot, felly byddwn ni'n barnu bod cofnod a gadarnhawyd o un Madfall Cribog Mawr unigol yn boblogaeth 'dda'.

[A4] PYSGOD

A.0.23 Dim newid i'r canllawiau Cymraeg.

[A5] INFERTEBRATAU [Adolygwyd gan Steve Bolchover]

A.0.24 Yn ogystal â'r meini prawf a nodwyd yng nghanllawiau Cymru, bydd safleoedd sy'n cynnal 5 neu fwy o rywogaethau sy'n Brin yn Genedlaethol yn cael eu hystyried i'w dethol.

LEPIDOPTERA [Adolygwyd gan Russell Hobson (BC)]

A.0.25 Mae'r canllawiau Lepidoptera bellach wedi'u seilio ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig *Butterfly Conservation* ar gyfer Cymru (1998-2009) ac yn canolbwyntio ar y rhywogaethau hynny sydd â thargedau a gyhoeddwyd i gefnogi Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru. Mae'r rhain ar gael ar wefannau WBP a *Butterfly Conservation*.

A.0.26 O ganlyniad, bydd ieir bach yr haf sydd ag arwyddocâd cadwraeth yng Nghymru (Tabl 6a) yn cael eu hystyried fel y rhai a restrir yn Llyfr Data Coch y Deyrnas Unedig, neu sydd ar y Rhestr Adran 7, gyda'r gofyniad penodol i weithredu er diogelu'r safle (yn LICC, 2008, neu fel y diweddarwyd yng nghynlluniau Cymru). Bydd unrhyw safle sy'n cynnal poblogaethau o'r rhywogaethau hyn yn cael ei ystyried i'w ddethol.

A.0.27 Bydd safleoedd sy'n cynnal Ieir Bach yr Haf sydd ag arwyddocâd cadwraeth canolig yng Nghymru (Tabl 6b) yn cael eu hystyried fel rhai cyfrannol i'w dethol.

[A6] PLANHIGION FASGWLAIDD [Adolygwyd gan Dr Charles Hipkin]

A.0.28 Bydd y canllawiau dethol a ddefnyddiwyd yng Nghanllawiau Cymru (2008) yn cael eu defnyddio gyda'r newidiadau canlynol i'r tablau sy'n rhestr'r prif rywogaethau/y rhywogaethau cyfrannol:

A.0.29 Allwedd Statws: NS (Cenedlaethol Brin); NR (Cenedlaethol Anfynych); VU (Bregus); EN (Rhywogaeth mewn Perygl); CR (Yn wynebu lefel gritigol o Berygl); LC (Cyffredin yn Lleol).

Tabl A.0.1 Rhestr o'r Planhigion ar restr Adran 42 o'r Planhigion Fasgwlaidd yn CNPT

Rhywogaeth		Statws
<i>Artemisia campestris ssp. maritima</i>	Y feidiog ddi-sawr spp	NR/VU
<i>Clinopodium acinos</i>	Brenhinllys y maes	?/VU
<i>Dianthus armeria</i>	Penigan y porfeydd	NS/EN
<i>Euphrasia rostkoviana ssp. montana</i>	Effros spp	NS/VU
<i>Gymnadenia conopsea</i>	Tegeirian pêr	?/LC
<i>Liparis loeselii</i>	Gefell-lys y fignen	NR/CR

Rhywogaeth		Statws
<i>Matthiola sinuata</i>	Murwyll arfor	NR/VU
<i>Monotropa hypopitys</i>	Cytwf	NS/EN
<i>Salsola kali ssp kali</i>	Helys pigog	?/VU
<i>Silene gallica</i>	Gludlys amryliw	NS/EN
<i>Trollius europaeus</i>	Cronnell	?/LC
<i>Vicia orobus</i>	Ffacbysen chwerw	NS/NT

Tabl A.0.2 Rhestr o'r Prif Rywogaethau ar gyfer Dynodi Safleoedd yn CNPT

Rhywogaeth		Statws
<i>Artemisia campestris ssp maritima</i>	Y feidiog ddi-sawr ssp	NR/VU
<i>Astragalus glycyphyllos</i>	Licris gwyllt	LC
<i>Atriplex longipes</i> *	Llygwyn hirgoes	NS/LC
<i>Baldellia ranunculoides</i>	Llyriad llai y dŵr	NT
<i>Butomus umbellatus</i>	Brwyn blodeuog	NT
<i>Carex distans</i>	Hesgen anghysbell	LC
<i>Carex elata</i>	Hesgen oleulas sythddail	LC
<i>Carex limosa</i> #	Hesgen y gors	LC
<i>Carex punctata</i>	Hesgen fannog	NS/LC
<i>Chrysanthemum segetum</i> *	Gold yr yd	VU
<i>Cladium mariscus</i>	Hesgen fawr y ffen	LC
<i>Climopodium acinos</i>	Brenhinllys y maes	LC
<i>Crepis paludosa</i>	Gwalchlys y gors	LC
<i>Cryptogramma crispera</i>	Rhedyn persli	LC
<i>Dianthus armeria</i>	Penigan y porfeydd	NS/EN/Sch. 8
<i>Dryopteris aemula</i> *	Rhedynen Creta	LC
<i>Eleocharis uniglumis</i>	Brwynen bigfain	LC
<i>Equisetum hyemale</i>	Marchwellt garw	LC
<i>Eriophorum gracile</i>	Plu'r gweunydd eiddil	NR/NT/Sch. 8
<i>Erodium lebelii</i>	Pig y crêyr gludiog	NS/LC
<i>Euphorbia exigua</i>	Fflamgoed eiddil flaenfain	NT
<i>Euphrasia micrantha</i>	Effros spp	DD

Atodiad A . Meini Prawf SINC

Rhywogaeth		Statws
<i>Euphrasia rostkoviana ssp montana</i>	Effros spp	NS/VU
<i>Festuca altissima</i>	Peiswellt y coed	NS
<i>Filago vulgaris</i>	Edafeddog llwyd	NT
<i>Frankaenia laevis</i>	Grugeilun llyfn	NS/NT
<i>Gymnadenia conopsea *</i>	Tegeirian pêr	LC
<i>Hydrocharis morsus-ranae</i>	Ffugalaw bach	VU
<i>Hymenopyllum tunbrigense</i>	Rhedynach teneuwe	LC
<i>Hymenophyllum wilsonii</i>	Rhedynach teneuwe Wilson	NT
<i>Hyoscyamus niger</i>	Ffa'r moch	VU
<i>Isoetes echinospora</i>	Gwair merllyn spp	LC
<i>Isoetes lacustris</i>	Gwair merllyn spp	LC
<i>Lepidium latifolium</i>	Berwr gwyllt	NS/LC
<i>Limonium procerum ssp. procerum</i>	Lafant y môr spp	-
<i>Liparis loeselii</i>	Gefell-lys y fignen	NR/EN/Sch. 8
<i>Lobelia dortmanna</i>	Bidoglys y dŵr	LC
<i>Marrubium vulgare</i>	Llwyd y cŵn gwyn	NS/LC
<i>Matthiola sinuata</i>	Murwyll arfor	NR/VU/Sch. 8
<i>Mecanopsis cambrica</i>	Pabi Cymreig	NS/LC
<i>Mentha suaveolens</i>	Mintys crynndail	NS/DD
<i>Misopates orontium *</i>	Trwyn y llo bychan	VU
<i>Myrica gale</i>	Myrtwydd y gors	LC
<i>Monotropa hypopitys **</i>	Cytwf	EN/Sch. 8
<i>Myriophyllum verticillatum</i>	Myrdd-ddail troellog	LC
<i>Parapholis incurva</i>	Glaswellt caled crwm	LC
<i>Parentucelia viscosa</i>	Gorudd melyn	LC
<i>Platanthera bifolia</i>	Tegeirian llydanwyrdd bach	VU
<i>Polygonum oxyspermum</i>	Canclwm Ray	LC
<i>Potamogeton perfoliatus</i>	Dyfrllys trydwill	LC
<i>Pyrola minor</i>	Coedwyrdd bychan	LC
<i>Ranunculus lingua</i>	Blaen y gwayw mwyaf	LC
<i>Rosa micrantha</i>	Drysien bêr fach flodeuog	LC

Rhywogaeth		Statws
<i>Rubus saxatilis</i>	Corfwyaren	LC
<i>Sagittaria sagittifolia</i>	Saethlys	LC
<i>Salicornia pusilla</i>	Llyrllys un blodeuyn	NS/LC
<i>Salsola kali ssp kali</i>	Helys pigog spp	VU
<i>Schoenus nigricans</i> *	Brwynen ddu'r gors	LC
<i>Scirpus holoschoenus</i>	Clwbfrwynen bengron	NR/EN
<i>Sedum roseum</i> *	Pren y ddannoedd	LC
<i>Silene gallica</i>	Gludlys blodeufach	NS/EN
<i>Sparganium angustifolium</i>	Cleddlys arnofiol	LC
<i>Sparganium natans</i>	Cleddlys lleiaf	LC
<i>Stellaria pallida</i>	Serenllys bach	LC
<i>Thalictrum minus</i> *	Yr arianllys bach	LC
<i>Thelypteris palustris</i>	Marchredynen y gors	NS/LC
<i>Trichomanes speciosum</i> (gametophyte)	Rhedynen wrychog	NR/LC
<i>Trollius europaeus</i> *	Cronnell	LC
<i>Typha angustifolia</i>	Llafrwynen lleiaf	LC
<i>Utricularia australis</i>	Chwysigenwraidd	LC
<i>Vaccinium vitis-idaea</i> *	Llusen goch	LC
<i>Verbascum nigrum</i> *	Pannog tywyll	LC
<i>Verbascum virgatum</i>	Pannog main	LC
<i>Vicia orobus</i>	Ffacbysen chwerw	NS/NT
<i>Viola canina</i>	Fioled y cŵn	NT
<i>Viola tricolor</i>	Trilliw	NT

* Dim cofnodion diweddar o safleoedd hysbys / ** un o'r poblogaethau mwyaf yng Nghymru o'r rhywogaeth atodlen 8 hon, a fu gynt ar safle Amazon yn Nhwyni Crymlyn, ond sydd bellach wedi marw allan; mae'n bosibl y bydd poblogaethau eraill yn y cyffiniau yn goroesi / #Angen ei gadarnhau yn achos Castell-nedd Port Talbot

Tabl A.0.3 Rhestr o'r Rhywogaethau Cyfranogol ar gyfer Dynodi Safleoedd yn CNPT

Rhywogaeth		Statws
<i>Agrimonia procera</i>	Llyisiau'r dryw pêr	LC
<i>Anacamptis pyramidalis</i>	Tegeirian pigfain	LC
<i>Apium inindatum</i>	Corslys lleiaf	LC
<i>Arenaria serpyllifolia ssp. leptocladus</i>	Tywodlys teimddail	LC

Atodiad A . Meini Prawf SINC

Rhywogaeth		Statws
<i>Atriplex glabruscula</i>	Llwyn llygwyn	LC
<i>Atriplex laciniata</i>	Llygwyn ariannaid	LC
<i>Atriplex littoralis</i>	Llygwyn arfor	LC
<i>Ballota nigra</i>	Marddanhadlen ddu	LC
<i>Bidens cernua</i>	Graban Gogwydd	LC
<i>Cakile maritima</i>	Hegydd arfor	LC
<i>Callitriche platycarpa</i>	Brigwlydd amrywddail y dŵr	LC
<i>Calystegia soldanella</i>	Carn ebol y môr	LC
<i>Carex disticha</i>	Hesgen lygliw	LC
<i>Carex extensa</i>	Hesgen hifain	LC
<i>Carex montana</i>	Hesgen dail feddal-ddail	NS/LC
<i>Carex vesicaria</i>	Hesgen chwysigennaidd	LC
<i>Ceratophyllum demersum</i>	Cyrnddail	LC
<i>Cystopteris fragilis</i>	Rhedynen godog frau	LC
<i>Dactylorhiza incarnata</i>	Tegeirian y gors	LC
<i>Echium vulgare</i>	Glesyn y wiber	LC
<i>Eleocharis multicaulis</i>	Ysbigfrwyn cadeiriog	LC
<i>Eleogiton fluitans</i>	Clwbfrwynen nofiol	LC
<i>Elytrigia juncea</i>	Marchwellt y tywyn	LC
<i>Epipactis palustris</i>	Caldrist y gors	LC
<i>Eryngium maritimum</i>	Celyn y môr	LC
<i>Euphorbia paralias</i>	Llaethlys y môr	LC
<i>Filago minima</i>	Edafeddog fain	LC
<i>Frangula alnus</i>	Rhafnwydden yr Alpau	LC
<i>Geranium pratense</i>	Pigaran y weirglodd	LC
<i>Geranium rotundifolium</i>	Pig yr aran grynddail	LC
<i>Gymnocarpium dryopteris</i>	Llawredynen y derw	LC
<i>Hippuris vulgaris</i>	Rhawn y gaseg	LC
<i>Honkenya peploides</i>	Tywodlys y môr	LC
<i>Inula crithmoides</i>	Sampier y geifr	NS/LC
<i>Isolepis cernua</i>	Clwbfrwynen fain	LC

Rhywogaeth		Statws
<i>Juncus acutus</i>	Llymfrwynen	LC
<i>Juncus subnodulosus</i>	Brwynen glymog	LC
<i>Lamium hybridum</i>	Danhadlog torddail	LC
<i>Lathraea squamaria</i>	Deintlys cennog	LC
<i>Lathyrus sylvestris</i>	Ytbyesen barhaus gulddail	LC
<i>Lathyrus nissolia</i>	Ytbyesen goch	LC
<i>Lemna trisulca</i>	Llinad eiddew	LC
<i>Leymus arenarius</i>	Clymwellt	LC
<i>Limonium vulgare</i>	Lafant cyffredin y môr	LC
<i>Linum bienne</i>	Llin culddail	LC
<i>Malva neglecta</i> *	Hocysen grynddail	LC
<i>Medicago arabica</i>	Maglys brith	LC
<i>Mercurialis annua</i>	Clais yr hydd	LC
<i>Myosotis ramosissima</i>	N'ad fi'n angof newidiol	LC
<i>Myriophyllum spicatum</i>	Myrdd-ddail tywysennaidd	LC
<i>Nuphar lutea</i>	Lili'r dŵr melyn	LC
<i>Nymphaea alba</i>	Lili'r dŵr gwyn	LC
<i>Oenanthe lachenalii</i>	Dibynlor perllys	LC
<i>Ophrys apifera</i>	Tegeirian gwenynog	LC
<i>Orobanche minor</i>	Gorfanael y moron	LC
<i>Osmunda regalis</i>	Rhedynen gyfrdwy	LC
<i>Papaver dubium ssp lecoqii</i>	Pabi hirben	LC
<i>Parapholis strigosa</i>	Corwellt	LC
<i>Phegopteris connectilis</i>	Llawredynen y ffawydd	LC
<i>Phleum arenarium</i>	Rhonwellt y Tywyn	LC
<i>Picris hieracioides</i>	Tafod y llew	LC
<i>Pinguicula vulgaris</i>	Tafod y gors	LC
<i>Plantago media</i>	Tafod yr oen	LC
<i>Potamogeton pectinatus</i>	Dyfrllys danheddog	LC
<i>Prunus padus</i>	Ceiriosen yr aderyn	LC
<i>Puccinellia distans</i>	Glaswellt morfa heli atblygedig	LC

Atodiad A . Meini Prawf SINC

Rhywogaeth		Statws
<i>Ranunculus penicillatus</i> ssp. <i>pseudofluitans</i>		LC
<i>Reseda lutea</i>	Melengu wyllt	LC
<i>Rhamnus catharticus</i>	Rhafnwydden	LC
<i>Rubia peregrina</i>	Gwreiddrudd wyllt	LC
<i>Rumex hydrolapathum</i>	Tafol y dŵr	LC
<i>Sagina maritima</i>	Corwlyddyn arfor	LC
<i>Sagina nodosa</i>	Corwlyddyn clymog	LC
<i>Salicornia dolichostachya</i>	Llyrllys pigau hir	LC
<i>Salicornia ramosissima</i>	Llyrllys porffor	LC
<i>Samolus valerandi</i>	Claerlys	LC
<i>Scnoenoplectus tabernaemontani</i>	Clwbfrwynen lwyd	LC
<i>Scirpus sylvaticus</i>	Clwbfrwynen y coed	LC
<i>Seriphidium maritimum</i>	Wermod y môr	LC
<i>Sorbus torminalis</i>	Cerdinen wyllt	LC
<i>Sparganium emersum</i>	Cleddlys unben	LC
<i>Spergularia marina</i>	Troellig arfor lleiaf	LC
<i>Spergularia media</i>	Troellig arfor mwyaf	LC
<i>Trifolium fragiferum</i>	Meillionen fefusaidd	LC
<i>Trifolium scabrum</i>	Meillionen arw	LC
<i>Valerianella carinata</i>	Gwylaeth-yr-oen ffrwythau rhychog	LC
<i>Veronica agrestis</i>	Rhwyddlwyn gwyrdd	LC
<i>Veronica catenata</i>	Graeanllys rhosliw'r dŵr	LC
<i>Viola tricolor</i> ssp. <i>curtisii</i>	Trilliw	LC
<i>Vulpia fasciculata</i>	Peiswellt meinddail	NS/LC

[A8] BRYOFFYTAU

A.0.30 Dim newid i'r canllawiau Cymraeg.

[A9] FFYNGAU


A.0.31 Dim newid i'r canllawiau Cymraeg.

[A10] CHAROFFYTAU

A.0.32 Dim newid i'r canllawiau Cymraeg.

Atodiad B RIGS

Rhaeadrau Aberdulais



Enw'r Safle: Rhaeadrau Aberdulais
Rhif RIGS: 583
Cyfeirnod Grid: SS 7710 9950
Categori RIGS: Addysgol, Hanesyddol
Categori Gwyddor y Ddaear: Stratigraffig, Sedimentolegol, Hanesyddol
Natur y Safle: Afon a rhaeadrau
Taflen OS 1:50,000: 170
Taflen OS 1:25,000: 165
Taflen BGS 1:50,000: E247R
Datganiad o Ddiddordeb RIGS: Mae'r rhaeadrau a'r creigiau a geir yn yr atyniad hwn i ymwelwyr sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnig mynediad at Dywodfaen Pennant trawiadol o oes Brithdir. Mae gan y safle ei amgueddfa/ganolfan addysg ei hun, ac mae'n darparu mynediad rhagorol, hwylus iawn i safle sydd o ddiddordeb daearegol a hanesyddol. Delfrydol ar gyfer grwpiau ysgol.

Lleoliad / Cyd-destun Daearegol

B.0.1 Mae'r safle ym mherchnogaeth ac o dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yn adrodd hanes *'pŵer dŵr a'i effaith ar ddiwydiant'*.⁽³³⁾ Yn Aberdulais, mae'r ceunant cul wedi darparu pŵer dŵr ar gyfer gweithio copr, blawd, gwlan a thun dros y canrifoedd, ac mae bellach yn cynhyrchu trydan, sydd wedi golygu bod y safle'n hunangynhaliol o ran ynni trwy ddefnyddio'r olwyn ddŵr fwyaf yn Ewrop at y diben hwnnw.


B.0.2 Mae'r safle'n cynnwys amlygiadau da o Dywodfaen Pennant o oes Brithdir. Yn nodweddiadol, gwelyau Brithdir yw *'tywodfeini caregol gwyrdd-lwyd, gyda lensys cydgrynoadol ar waelod yr unedau. Mae'r tywodfeini wedi'u rhynghaenu â cherrig llaid tenau neu gerrig gwaddod, a phriddoedd gwaelodol a glo tenau'*. Mae'r safle arddangos enghreifftiau da o dywodfeini mewn gwelyau anferth a chroeswelyau haenog sy'n gynnwys gweddillion planhigion.

B.0.3 Mae'r uniadau'n arwyddocaol yma yn rhannol oherwydd eu bod wedi caniatáu i'r graig gael ei hechdynnu'n hwylus ar hyd y geunant a rhannau eraill o'r safle, ac yn rhannol oherwydd eu bod bellach yn cynnig arwynebau sefydlog, glân sy'n hwyluso mynediad diogel.

B.0.4 Mae wynebau'r graig bellach wedi gordyfu, a dylid cadw mewn cof bod hwn yn safle diwydiant trwm, heb fawr ddim llystyfiant, os o gwbl, bryd hynny.

B.0.5 Mae'r safle'n arbennig o bwysig oherwydd ei fod yn darparu mynediad diogel iawn i rai nodweddion daearegol diddorol sydd o ddefnydd addysg ddaearegol sylfaenol, gyda mantais cyfleusterau coffe a thoiled ar y safle.

Nant Melincwrt



Enw'r Safle: Nant Melincwrt
Rhif RIGS: 590
Cyfeirnod Grid: SS 8220 0190
Categori RIGS: Gwyddonol, Addysgiadol, Esthetig, Hanesyddol
Categori Gwyddor y Ddaear: Hanesyddol, Diwydiannol, Stratigraffig
Natur y Safle: Rhan o afon a rhaeadr
Taflen OS 1:50,000: 170
Taflen OS 1:25,000: 165
Taflen BGS 1:50,000: 231/248
Datganiad o Ddiddordeb RIGS: Mae rhan o'r safle'n hygyrch iawn gyda llwybrau troed sydd wedi'u cynnal yn dda, gan arwain at rhaeadr ysblennydd, sy'n dangos mewn modd graffig sut cânt eu ffurfio wrth i waddodion mwy meddal gael eu herydu ac i'r gwelyau caletach uwch eu pennau syrthio. Mae'r safle'n creu adran trwy Welyau Tywodfaen Pennant a glo Rhondda a Brithdir, ac yn un o ardaloedd mwyaf di-dor Gwelyau Brithdir. Mae'r safle hefyd yn cynnwys gwaith haearn nad yw'n cael ei ddefnyddio a thomenni cysylltiedig â gwaith glo, sydd o ddiddordeb hanesyddol a diwydiannol.

Lleoliad / Cyd-destunDaearegol

B.0.6 Mae Melincwrt yn cwmpasu rhyw 3km o amlygiad bylchog ar draws Ffurfiant Pennant mewn adran nant lle gellir archwilio Gwelyau Rhondda Uchaf a Brithdir. Rhagfynegir fod gwythiennau glo Rhondda Rhif 1, Glo Tenau'r Brithdir, y Graig, Atodiad

Brithdir, Glyngwilym, Wenal ac Atodiad y Wenallt i gyd yn brigo i'r wyneb yma, er bod llawer yn anodd cael hyd iddynt heb glirio'r adrannau. Mae rhai'n amlwg oherwydd yr ardaloedd lle bu gweithfeydd.

B.0.7 Mae'r amlygiad yn cychwyn ar waelod y llwybr troed lle mae'n cwrdd â'r B4434, lle ceir sawl metr o silt a cherrig llaid. Mae'r cerrig llaid a'r silt mân yn y gwelyau yn fuan yn troi'n ffurfiannau tywodfaen sy'n meinhaus ar i fyny. Mae'r ffurfiannau hyn, sydd â gwelyau anferth, wedi cael eu herydu'n ddwfn, fwy na thebyg ar hyd setiau'r uniadau, wrth i'r afon greu ceunant cul, dwfn, sawl sgwd fechan a rhaeadrau. Mae'r tywod yn aml yn mynd yn fân, ac ambell waith yn llawn silt, ond yn gyffredinol gwelir dosbarthiad gronynnau llawer mwy rheolaidd na dilyniannau'r Rhondda isaf a chanol. Gwaetha'r modd, nid yw'r cyntaf o'r enghreifftiau arwyddocaol o lo yn yr adran yn weladwy ar hyn o bryd. Mae glo Brithdir, sydd ar waelod y rhaeadr fawr, wedi'i guddio gan sgri, cerrig mawr, a chryn ddyfnder o ddŵr yn y pwll plymio ar y gwaelod. Ar y lan ogleddol, ychydig o dan y pwll plymio, ceir hyd i is-haen gwreiddigyn gwely glo Brithdir, ond gwaetha'r modd mae'r is-haen a'r glo wedi'u gorchuddio gan sgri a llystyfiant ar lefel y llwybr troed ar y lan ddeheuol.

B.0.8 Mae'r rhaeadr yn tywallt dros dywodfeini Pennant anferth, gyda haenau siâl mwy meddal ar y gwaelod. Wrth i'r siâl gael ei erydu, mae'n tanseilio'r tywodfeini, fel eu bod yn cwmpo ac yn peri i'r rhaeadr ymddangos fel petai'n symud yn groes i'r llif.

B.0.9 Ceir haen arall denau o lo, rhyw 10cm o drwch, rhyw draean o'r ffordd i fyny'r rhaeadr, a nodir ei lleoliad gan silff gul. Mae'r adran hon oddi mewn i ffin 1 RIGS Melincwrt.

B.0.10 Mae amlygiad bylchog y tywodfaen yn union uwchben y rhaeadr, ac er nad yw i'w weld yn yr adran, mae lleoliad gwythien y Graig yn cael ei nodi'n glir gan sawl ceuffordd bob ochr i'r afon. Mae'r gwelyau sydd heb eu hamlygu yn debygol o gynnwys cerrig llaid tenau llai gwydn wedi'u rhyngaenu, a hynny sy'n creu'r tirlun mwy agored yn yr ardal hon. Gwyddys bod adran 18-24 modfedd o lo'r Graig yn y lleoliad hwn, a gwyddys bod *Anthraconauta tenuis* ac *A. Philipsii* ac ostracodau yn deillio o'r rwbel (Cofnod BGS, Pontypridd).

B.0.11 Uwchlaw'r lefel hon mae amlygiad bylchog tywodfeini yn parhau ar draws y gwelyau am 40-50 metr fertigol mewn amlygiadau yn y nant ac ar y lan. Y ffordd orau o gael mynediad i'r adran stratigraffig hon yw trwy ddisgyn ar hyd glan goediog yr afon o gaeau'r ffermwyr uwchben. Mae croesi'r nant i'r lan ogleddol yn hwyluso ymchwilio i'r tywodfeini a Glo Atodiad Brithdir. Yr unig arwydd o leoliad y glo yw gwaddodion siâl tywyll ar waelod wal dywodfaen. O gloddio'r deunydd hwn i'w glirio, datgelir bargod sylweddol ac amlygiad cilfachog o'r glo ei hun. Dim ond am gyfnod byr mae'r amlygiad i'w weld, gan ei fod yn cael ei atal gan nifer sylweddol o flociau tywodfaen Pennant sydd wedi syrthio. Gwyddys bod rhyw drwch o gerrig llaid yn bodoli o dan Atodiad Brithdir, a gellir amcangyfrif, ar sail amlygiad cyfyngedig, ei fod dros 4 metr o drwch. Gwelwyd y garreg laid hon rywfaint yn bellach i lawr yr afon mewn is-afon serth yn llawn cerrig mawrion ar y lan ogleddol (Cyf. Grid: SN 830 014).

B.0.12 Mae'r adran i fyny'r afon yn parhau gyda sgydau ac adrannau'n llawn cerrig mawrion, ac mae'r clogwyni tywodfaen Pennant sy'n dangos ôl y tywydd ar hyd glan yr afon yn dangos blaen-haenau trawsely wedi'u diffinio'n hardd a ffurfiau gwely erydol. Mae'r gweithfeydd ar hyd glan yr afon yn awgrymu bod haenau tenau o lo yn bresennol,

er na nodwyd amlygiad arwyddocaol. Ceir hyd i Wythïen Glyngwilym, sy'n cymryd ei henw o'r fferm (Cyf. Grid: SN 8300 0117), hanner cilometr i'r de-orllewin o Felincwrt, ymhellach i fyny'r afon o dan sgwd tywodfaen amlwg. Gellir olrhain y 'brig' ar draws ochr y bryn i'r gorllewin o'r nant, ac mae wedi'i nodi'n bennaf gan rwbwl a hen geuffyrdd. Gwyddys ar sail glofeydd yn yr ardal bod y dilyniant yn union uwchben gwythien Glyngwilym yn cynnwys cerrig llaid llawn silt a chlai bron yn llwyr, ac er nad oes fawr ddim tystiolaeth o frigo i'r wyneb, mae'r dyffryn yn troi'n fwy agored, ac mae Nant Melincwrt yn llifo ar draws rhostir mawn ucheldir agored.

B.0.13 Adeiladwyd y gweithfeydd haearn a'r ffrwnais chwyth, y mae eu gweddillion yn dal yn weladwy ar y safle, yn yr 17eg Ganrif, gyda'r gwaith yn agor yn 1708 ac yn newid o siarcol i olog yn 1795. Roedd yn cynhyrchu haearn crai oedd yn mynd i Efail Dulais, yn Aberdulais, i'w droi'n haearn bwrw. Deuai'r pŵer ar gyfer ffrwnais chwyth Melincwrt o olwyn ddŵr dros y rhod, oedd yn cael ei bwydo gan ffrwd o'r rhaeadrau uwchben. Daeth y gwaith i ben yn derfynol yn 1808. Gwyddys bod gan y safle ffrwnais aer, purfa, ffowndri ac adeiladau ategol. Mae'r adran hon uwchben y rhaeadrau yn rhan o ffin 2 RIGS Nant Melincwrt.

B.0.14 Mae ffin 3 RIGS Nant Melincwrt i'r de-ddwyrain o ardal 2 RIGS, ac yn cwmpasu ardal o domenni glofa, lefelau a threialon cysylltiedig â Glofa Cefn Mawr (Cyf. Grid: SS 842 999) a Glofa Blaen y Cwm (Cyf. Grid: SS 846 997). Bu'r ddwy yn gweithio gwythien lo Atodiad y Wenallt. Roedd Glofa Blaen y Cwm yn cael ei gwasanaethu gan dramffordd oedd yn cysylltu Tramffordd Clyn ac yn y pen draw, Camlas Nedd.

Atodiad C Canllawiau Penodol ar Gynlluniau Ynni Gwyn

C.0.1 Mae gan gynlluniau datblygu ynni gwynt ofynion penodol nad ydynt yn angenrheidiol ar gyfer prosiectau eraill. O ystyried natur, graddfa a lleoliad ucheldir datblygiadau o'r fath, gall y cynigion ddod ar draws cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn aml yn cael eu hystyried mewn mathau eraill o gynlluniau. Ar ben hynny, mae'r prosesau gwaelodol a chynhaliol sy'n dibynnu ar geoamrywiaeth, gwahanol fathau o bridd a hydroleg hefyd yn ystyriaethau pwysig ar gyfer cynlluniau o'r fath.

C.0.2 Dylid darllen y canllawiau canlynol ochr yn ochr ag **Adran 5.1**. Isod cyflwynir gofynion neu faterion ychwanegol penodol ar ben y rhai sydd eisoes wedi derbyn sylw yn yr adran honno.

Gofynion o ran Gwybodaeth

C.0.3 Mae'r canlynol yn cyflwyno materion ychwanegol penodol o ran ynni gwynt neu ofynion gwybodaeth:

Gofynion Penodol o ran Gwybodaeth

- ✓ Yn aml bydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ac Asesiad Gwydnwch yr Ecosystem (AGE), yn arbennig yn achos y cynlluniau hynny sydd â nifer fawr o dyrbinau.
- ✓ Arolygon bridio, gaeafu a mudo ynghylch adar, gan gynnwys asesiad o risg gwrthdaro. Dylai hyn gynnwys yn arbennig arolygon ar gyfer rhywogaethau adar ysglyfaethus a gwalch y nos. Mae gan rai o adar ysglyfaethus penodol Atodlen 1, megis Boda'r Mêl, ofynion methodoleg penodol y dylid cytuno arnynt cyn i unrhyw waith arolygon gychwyn.
- ✓ Arolygon mawndir, gan gynnwys gweithrediad hydrolegol.
- ✓ Arolygon clwydo a gweithgaredd ystumod, gan gynnwys arolygon uchel ac asesu risg gwrthdaro
- ✓ Arolygon ar gyfer rhywogaethau prin o blanhigion a mwsogl, yn arbennig ar hyd ymylon traciau coedwigaeth.

C.0.4 Mae'n bwysig bod datblygwr yn ceisio cyngor cyn-ymgeisio gan y Cyngor cyn gynted â phosibl, er mwyn canfod pa wybodaeth mae'n rhaid ei darparu fel rhan o'r cais cynllunio a gyflwynir. Mae'n bwysig nodi bod yr arolygon gofynnol yn debygol o gymryd isafswm o flwyddyn neu ddwy i'w cwblhau.

Llun C.1 Tyrbinau Gwynt yn Fferm Wynt Pen y Cymoedd



Ymdrin ag Effeithiau Niweidiol

C.0.5 Oherwydd lleoliad a maint cynlluniau cysylltiedig â'r gwynt, mae'n debygol y bydd safleoedd arfaethedig o gryn ddiddordeb o ran bioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth, ac o ganlyniad dylai'r cais a gyflwynir gynnwys mesurau digonol i amddiffyn y budd hwn. Oherwydd cymhlethdodau tebygol y materion bioamrywiaeth / geoamrywiaeth ar y safle, argymhellir ceisio'r cyfle i ymgysylltu'n rheolaidd â Thîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt y Cyngor trwy'r gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio, mewn perthynas â datblygu cynlluniau addas ar gyfer amddiffyn, lliniaru, gwneud iawn a gwella'r diddordeb a nodwyd.

C.0.6 Gallai'r mesurau **osgoi** penodol y gellid eu defnyddio yn achos datblygiadau ynni gwynt gynnwys y canlynol:

- ✓ Addasu lleoliad tyrbinau, y seilwaith gysylltiedig a thraciau i ffwrdd oddi wrth gynefinoedd sensitif, cynefinoedd sy'n cynnal rhywogaethau sensitif ac adnoddau mawn.

- ✓ Addasu lleoliad tyrbinau, y seilwaith gysylltiedig a thraciau, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau hydrolegol, sicrhau bod cysylltiadau hydrolegol allweddol yn cael eu cynnal, a bod gweithrediad mawndir yn cael ei ddiogelu.
- ✓ Addasu lleoliad tyrbinau, y seilwaith gysylltiedig a thraciau i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle ceir gweithgaredd pwysig gan adar neu ystlumod, yn arbennig oddi wrth leoliadau nythu neu glwydo a lleoliadau lle byddai perygl gwrthdaro yn cael ei gynyddu oherwydd materion topograffi neu faterion daearyddol/ecolegol eraill.

C.0.7 Gallai'r mesurau **lliniaru** penodol y gellid eu defnyddio yn achos datblygiadau ynni gwynt gynnwys y canlynol:

- ✓ Datganiadau Dull Adeiladu (CMSs) - fel rhan o'r broses ddylunio fanwl, oddi mewn i CMS, gellir dylunio'r seilwaith a gweithredu adeiladwaith mewn ffyrdd sy'n lleiafu'r effeithiau (e.e. trwy lunio traciau sy'n arnofio dros ben cors fawnaidd; ymgorffori mesurau draenio gwahanol er mwyn cynnal cysylltiadau hydrolegol; ymgorffori manau croesi i fywyd gwyllt).
- ✓ Cynlluniau Rheoli Adeiladwaith Amgylcheddol (CEMPs) - gall y rhain nodi mesurau penodol ar gyfer cadw nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth (e.e. trwy gyflawni gwiriadau cyn-cychwyn ar gyfer rhywogaethau; trawsleoli rhywogaethau; cyflwyno gofynion ar gyfer atal llygredd; pennu rhaglen waith sy'n cymryd i ystyriaeth ofynion ecolegol tymhorol; manylu ar fesurau atal ymwithio megis gwaith ffensio).
- ✓ Lleihau cyflymder - lle rhagwelir effeithiau ar rywogaethau megis ystlumod, gellir newid cyflymdra'r gwynt sy'n angenrheidiol i droi llafnau'r tyrbinau er mwyn lleiafu risg gwrthdaro (e.e. cyflymdra gwynt is).
- ✓ Micro-leoli - gellir micro-leoli tyrbinau a seilwaith a thraciau cysylltiedig, er mwyn osgoi cynefinoedd sensitif, cynefinoedd sy'n cynnal rhywogaethau sensitif neu nodweddion daearegol.
- ✓ Cynnal yr ardal o amgylch y tyrbinau er mwyn annog rhywogaethau targed i beidio â'u defnyddio.
- ✓ Amseriad Gweithredu - lle rhagwelir effeithiau ar rywogaethau megis ystlumod, gellir diffodd tyrbinau a/neu beidio â chaniatáu iddynt droi yn ystod cyfnodau penodol yn y nos ac mewn tymor arbennig, gan leihau'r perygl o gael gwrthdaro yn ystod cyfnodau risg uwch.

C.0.8 Ymhlith y mesurau **gwneud iawn** y gellid eu defnyddio ar gyfer datblygiadau ynni gwynt, pan fydd popeth arall wedi methu, mae:

- ✓ Creu a rheoli cynefin addas ar gyfer rhywogaethau targed (e.e. Gwalch y Nos a Boda'r Mêl).
- ✓ Creu, ailgreu neu adfer cynefinoedd, yn arbennig cynefinoedd ucheldir fel corstir mawnaidd a rhostir ar y safle neu ar ddarnau eraill o dir. Bydd angen i leoliadau a chwmpas cynefin amnewid o'r fath weithredu'n ecolegol ac yn hydrolegol (h.y. bydd gofyn bod ganddo gysylltiad ecolegol â chynefin arall tebyg a bod trefniadau hydrolegol swyddogaethol yn cael eu hadfer).
- ✓ Newid dyluniad y safle i gynnwys nodweddion a fyddai'n gwneud iawn, a allai gynnwys gwelliannau i werth cadwraeth y safle.
- ✓ Darparu mesurau rheoli tymor hir ar gyfer cynefinoedd, er mwyn sicrhau bod eu gwerth yn cael ei gadw a'i gynnal yn y tymor hir.
- ✓ Gwirfoddoli rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau mesurau o'r fath.
- ✓ Llunio pwyllgor llywio o sefydliadau perthnasol (e.e. y Cyngor, CNC, cyrff cadwraeth natur fel 'Y Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar' (RSPB) neu'r 'Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt') er mwyn rhoi cyngor a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r mesurau gwneud iawn a lliniaru ar y safle.

Llun C.2 Nightjar Copyright Dan Carrington



C.0.9 O ystyried graddfa cynlluniau cysylltiedig â'r gwynt, mae'n annhebygol y bydd 'Cynllun Gwneud iawn am Fioamrywiaeth' y Cyngor yn ddichonadwy ar gyfer datblygiadau o'r fath. Fodd bynnag, bydd datblygwyr yn dal i fedru cyd-drafod â thirfeddianwyr er mwyn canfod / darparu ardaloedd gwneud iawn posibl, a bernir y bydd hynny'n parhau'n fecanwaith mwyaf tebygol ar gyfer gwneud iawn yn achos y math hwn o ddatblygiad.

Cyfleoedd i Wella

C.0.10 Gallai datblygiadau ynni gwynt ddarparu unrhyw rai o'r nodweddion **gwella** canlynol⁽³⁴⁾

Manteision Newydd Posibl

- ✓ Ardaloedd cynefin newydd, megis coetir, prysg, glaswelltir neu byllau.
- ✓ Cyfleoedd nythu, clwydo a fforio ar gyfer ystlumod ac adar mewn lleoliadau nad ydynt yn cynyddu risg anafiadau.

34 Mae enghreifftiau pellach ar gael yn y 'Canllaw' a luniwyd gan y Cyngor, sy'n darparu enghreifftiau o wahanol fathau o gynlluniau, a sut y gallant ymgorffori ystyrfaethau bioamrywiaeth.

Atodiad C . Canllawiau Penodol ar Gynlluniau Ynni Gwyn

- ✓ Adfer tir i gynefinoedd sydd â gwerth bioamrywiaeth, megis glaswelltir, coetir neu rostir sy'n llawn rhywogaethau.
- ✓ Cynlluniau draenio cynaliadwy neu ddraenio seiliedig ar atebion naturiol (e.e. pyllau, gwlyptir, caniatáu gorlifo dros y tir yn ystod lefelau glaw uchel). Bydd hyn yn caniatáu i system ddraenio safle fod o werth bioamrywiaeth.
- ✓ Creu a rheoli cynefin addas ar gyfer rhywogaethau targed (e.e. Gwalch y Nos a Boda'r Mêl).
- ✓ Darparu mesurau rheoli tymor hir ar gyfer cynefinoedd, er mwyn sicrhau bod eu gwerth yn cael ei gadw a'i gynnal yn y tymor hir.
- ✓ Trywyddau a byrddau dehongli sy'n darparu gwybodaeth addysgiadol ynghylch nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

Atodiad D Cynllun Gwneud iawn

D.0.1 Mae'r gofynion o ran gwneud iawn yng nghyswllt bioamrywiaeth wedi'u nodi ym Mholisi EN6 (Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig). Er y bydd datblygwyr yn gallu rhoi sylw i'r gofynion bioamrywiaeth (gan gynnwys rhai deddfwriaethol) ar y safle mewn llawer o achosion, o dan rai amgylchiadau mae'n bosibl na fydd digon o dir ar gael i ganiatáu cynnal a gwella'r diddordeb bioamrywiaeth ar y safle.

D.0.2 Yn yr achosion hyn, mae angen gwneud iawn am golledion bioamrywiaeth oddi ar y safle er mwyn sicrhau bod y gofynion polisi a'r dyletswyddau deddfwriaethol angenrheidiol yn cael eu bodloni. Gwaetha'r modd, mae'r angen am safleoedd gwneud iawn yn cynyddu'n barhaus, ac yn fwy diweddar, mae cael hyd i ddarpariaethau o'r fath a chytuno arnynt wedi dod yn fwy o her. Ymhellach, mae'r gwerth bioamrywiaeth hysbys sy'n bodoli ar nifer o safleoedd CDLI a ddyrannwyd yn awgrymu bod y mater hwn yn debygol o fod yn ystyriaeth barhaus wrth symud ymlaen.

D.0.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod yn anodd i rai datblygwyr gael hyd i dir ychwanegol i'w ddefnyddio i wneud iawn oddi ar y safle, ac o ganlyniad, mae datblygwyr yn aml yn gofyn i'r Cyngor nodi a hwyluso hynny. Ymhellach, mae profiad wedi dangos y byddai'n well gan lawer o ddatblygwyr dalu swm o arian i ymdrin â'r broblem, a'r gallu i symud ymlaen gyda'u datblygiad, heb y baich o gyflawni mesurau gwneud iawn o'r fath eu hunain. Hyd yma mae'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd ar gyfer gwneud iawn wedi bod yn drefniant ad hoc, ac yn araf iawn i'w gyd-drafod.

Y Ffordd Ymlaen

D.0.4 Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi comisiynu 'David Clements Ecology Ltd' i wneud gwaith ymchwil er mwyn canfod yr amrywiol brosesau sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr ac ymchwilio i drefniadau ariannu posibl. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi llywio datblygiad y 'Cynllun Gwneud iawn ar gyfer Bioamrywiaeth' a gyflwynir isod.

D.0.5 Nod y cynllun yw pennu a chyflawni mesurau gwneud iawn ar gyfer bioamrywiaeth yn y ffordd fwyaf ymarferol, ac ar yr un pryd leihau'r baich ar ddatblygwyr a buddsoddwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan sicrhau felly bod y Cyngor yn medru cyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol. Mae'r cynllun yn nodi'r camau y gall y Cyngor eu cymryd i ddarparu gwasanaeth gwneud iawn sy'n ymarferol gyflawnadwy.

D.0.6 Er y bydd rhai datblygwyr o bosibl yn gallu derbyn cyfrifoldebau o ran canfod safleoedd a chyflawni gwaith rheoli bioamrywiaeth, mae'n bosibl na fydd eraill am symud ymlaen gyda hynny. Yn ogystal, lle bu datblygwyr yn cyflawni gwaith yn y gorffennol, cafwyd trafferth i orfodi cyflawni dros y cyfnod o amser oedd yn angenrheidiol er mwyn i waith bioamrywiaeth gael ei gyflawni, gan fod cwmnïau'n mynd i'r wal, yn cyfuno, a bod tir yn newid perchnogaeth, ac o ganlyniad roedd cael hyd i lwybr gorfodi yn anodd, a hynny yn ei dro yn golygu anhawster i sicrhau bod y canlyniad bioamrywiaeth gofynnol yn cael ei wireddu.

D.0.7 Er mwyn rhoi sylw i faterion o'r fath a chyflawni'r canlyniad gorau posibl ar gyfer bioamrywiaeth, bydd y Cyngor yn ceisio hwyluso a chyflawni 'Gwasanaeth Gwneud iawn ar gyfer Bioamrywiaeth'. Bydd y dull gweithredu hwn wedi'i fwriadu, nid yn unig i fod o

fudd i'r datblygwyr hynny sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth, ond hefyd i ddarparu mecanwaith cyflawni mwy cadarn a thryloyw ar gyfer gwarantu canlyniadau bioamrywiaeth. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud defnyddio'r gwasanaeth hwn yn orfodol, ond mae'r Cyngor yn dymuno annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth trwy gyd-drafod yn ystod y broses gynllunio.

Proses Gwneud iawn ar gyfer Bioamrywiaeth

[Nodyn: er bod y broses a nodir isod yn ystyried gwneud iawn am gynefinoedd yn benodol, bydd hyn yr un mor ofynnol wrth drawsleoli neu wneud iawn am yr effeithiau ar rywogaethau].

Cam 1 - Bancio Cynefinoedd

D.0.8 Er mwyn galluogi datblygiad a lleihau oedi, nod y broses yw bancio nifer o safleoedd ('bancio cynefinoedd') yn barod i gyflawni'r gwaith gwneud iawn angenrheidiol. Bydd hyn yn lleihau'r oedi sylweddol a brofir ar hyn o bryd tra bod safle gwneud iawn yn cael ei nodi/leoli.

D.0.9 Nodir safleoedd; asesir eu bioamrywiaeth i sicrhau nad oes diddordeb sylweddol yn y safleoedd eisoes (e.e. cynefinoedd neu rywogaethau CGBLI/A7/SINC sydd eisoes yn bodoli; dynodiad cadwraeth natur) a pharatoir Cynllun Rheoli Amgylcheddol (CRhA) yn nodi manylion y gwaith rheoli bioamrywiaeth arfaethedig y gellid ei wneud i wella gwerth bioamrywiaeth y safle. Bydd y gweithiau hyn yn cael eu costio, ac Ecolegwyr y Cyngor fydd yn gwneud y gwaith arolwg ac yn paratoi'r CRhA⁽³⁵⁾.

D.0.10 Nodwyd nifer o faterion yn yr ymchwil sy'n awgrymu y gallai gweithio gyda thirfeddianwyr preifat fod yn drafferthus (e.e. hyd y cytundebau cyfreithiol angenrheidiol, gwrthdaro â chymorthdaliadau ffermio). Ar y cychwyn, felly, ffocws y gronfa cynefinoedd fydd tir mewn meddiant cyhoeddus, yn arbennig tir sydd ym meddiant y Cyngor. Ar ben hynny, ystyrir prynu tir os byddai'n well gan dirfeddianwyr beidio â chael ei glymu gan gytundeb cyfreithiol hirfaith, ac er mwyn sicrhau bod digon o safleoedd eisoes wedi'u bancio ar gyfer gwahanol fathau o gynefinoedd/gynefinoedd posibl.

Cam 2 - Datblygu

D.0.11 Fel rhan o'r cais cynllunio a gyflwynir, bydd y datblygwr yn nodi manylion union fath a chwmpas y golled o ran cynefin/bioamrywiaeth gweddilliol, ar ôl i'r holl fesurau lliniaru gael eu rhoi ar waith. Cytunir ar ddulliau posibl o wneud iawn am golled o'r fath gyda swyddogion cynllunio ac ecolegwyr y Cyngor.

D.0.12 Cyd-drafodir hyd a lled y mesurau gwneud iawn am gynefin sy'n ofynnol, a bydd yr union swm yn dibynnu ar natur y mesurau gwneud iawn y cytunwyd arnynt, er bod rhaid i hynny, fel isafswm, fod yn fwy na'r hyn a gollwyd. Bydd yr union lefel a fernir sy'n briodol hefyd yn rhoi sylw i'r gofynion ar gyfer gwella ac am faint o amser bydd angen i gynefinoedd

35 Ceir manylion pellach ynghylch mater oediadau a lluosogwyr yn y 'Biodiversity Offsetting Pilots Technical Paper: The Metric for the Biodiversity Offsetting Pilot in England' (DEFRA - Mawrth 2012).

newydd ddatblygu er mwyn gwneud iawn am ansawdd yr hyn a gollwyd (degau neu hyd yn oed gannoedd o flynyddoedd mewn rhai achosion). Bydd y lluosogwyr perthnasol sy'n ofynnol i ymdrin â'r oediad hwn yn benodol i'r cynefin(35).


D.0.13 Yn achos colledion bychain lle byddai creu cynefin gwneud iawn wedi cyfyngu ar werth bioamrywiaeth neu weithrediad ecolegol, gellir defnyddio cyfraniad ariannol i gynnal a gwella'r gwerth bioamrywiaeth presennol ar safle. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol, ac ni fyddant yn berthnasol ond i safleoedd lle collir llai na 0.5 hectar o gynefin.

Cam 3 - Dethol Safleoedd Gwneud iawn

D.0.14 Bydd ecolegwyr y Cyngor yn ceisio paru'r datblygwr â safle gwneud iawn addas o gronfa cynefinoedd Castell-nedd Port Talbot, a hynny ar sail y math o gynefin a'i gwmpas sy'n cael ei golli o'r safle datblygu, a gellir paru'r datblygwr ag un neu fwy o nodau rheoli oddi mewn i CRhA ar gyfer y safle hwnnw sy'n gwneud iawn ar gyfer bioamrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bosibl gwneud iawn am gynefin â chynefin unfath, ac mewn achosion lle na ellir sicrhau gwneud iawn yn uniongyrchol am y math o gynefin dan sylw, defnyddir yr 'Hierarchaeth Gwneud iawn am Gynefinoedd' i gael hyd i ddewis amgen addas.

Atodiad D . Cynllun Gwneud iawn

Ffigur D.1 Hierarchaeth Gwneud iawn am Gynefinoedd



D.0.15 Lluniwyd yr 'Hierarchaeth Gwneud iawn am Gynefinoedd' a gyflwynwyd uchod i helpu i gyfiawnhau a chanfod pa fath o gynefin ddylai gael ei ddefnyddio i wneud iawn os nad oes modd gwneud iawn ar ffurf cynefin unfath. Er y gall hynny olygu colli math penodol o gynefin yn gyffredinol (bydd angen adrodd am hynny), bydd enillion o ran math arall o gynefin, a fydd felly yn sicrhau bod cyfrif yn cael ei roi am fioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol, ac yn y tymor hir, bydd amrywiaeth o safleoedd sy'n cyflwyno gwahanol welliannau bioamrywiaeth yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng colli cynefinoedd o'r fath ar safleoedd unigol.

D.0.16 Fodd bynnag, bydd angen monitro hyn yn ofalus. Os oes un math o gynefin yn cael ei gollu'n barhaus oherwydd y broses hon o ddethol safleoedd, bydd angen adolygu'r broses. Gall olygu bod cynefin o'r fath wedi'i gynnwys yn y rhestr cynefinoedd y bernir nad oes modd darparu eraill yn eu lle, ac felly dylid sicrhau nad oes datblygiad ar safleoedd o'r fath.

Cam 4 - Cytundeb Cyfreithiol

D.0.17 Dim ond ar ôl i safle gwneud iawn a math o gynefin gael eu cytuno y gall manylion A106 gael eu cyd-drafod. Bydd cyfraniad ariannol yn cael ei sicrhau ar gyfer y gwaith rheoli bioamrywiaeth cytunedig, fel y nodwyd yn y CRhA ar gyfer y safle, a hynny ar gyfer isafswm o 15 mlynedd(36); ffi am y tir (h.y. tâl am ddefnyddio'r safle er mwyn sicrhau na phrofir colledion incwm net i'r tiffeddiannwr); a chostau rheoli'r prosiect. Unwaith mae'r A106 a phob mater arall perthnasol i'r cais wedi'u cytuno, gellir rhoi caniatâd cynllunio, gyda'r cytundeb A106 yn amod ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir.

D.0.18 Gall mwy nag un datblygiad gyfrannu at un safle gwneud iawn lle na fyddai effeithiau un datblygiad yn gymesur â maint y safle gwneud iawn a nodwyd. Gan nad yw gwneud iawn ar gyfer bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn seilwaith, byddai cyfuno unrhyw nifer o gytundebau A106 fel hyn yn dderbyniol.

Cam 5 - Cyflawni

D.0.19 Unwaith y daw'r A106 i rym (fel arfer pan fydd y datblygiad yn cychwyn), bydd yr arian yn cael ei ryddhau a bydd modd cyflawni'r gwaith rheoli bioamrywiaeth ar y safle o dan reolaeth prosiect Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt y Cyngor.

D.0.20 Lle gwneir y gwaith gan y datblygwr neu gan barti allanol arall, bydd yr Adran Gy nllunio'n gwneud trefniadau ar gyfer gorfodi cyflawni'r A106 yn briodol, yn ôl y galw.

Atodiad D . Cynllun Gwneud iawn

Ffigur D.2 Proses lawndal Bioamrywiaeth



Atodiad E Rhestr Eirfa

Table E.0.1 Tabl E.0.1 Rhestr Termau

Coetir Hynafol	<p>Coetir sydd naill ai: 1. wedi cael ei asesu a'i restru yn Rhestr Coetiroedd Hynafol Cymru fel un a fu mewn bodolaeth yn barhaus ar safle ers 1600 ac sy'n fwy na 5ha o faint.</p> <p>2. yn cefnogi rhywogaethau dangosol coetiroedd hynafodd megis Clychau'r Gog. Mae'r rhywogaethau hyn yn araf i ymledu i'r ardaloedd cyfagos, ac felly gallant barhau ar safle coetir sydd wedi cael ei glirio ers hynny o bosib. Mae llawer o blangfeydd coniferaidd wedi cael eu plannu dros lawer o safleoedd coetir hynafol yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond mae rhai enghreifftiau lled-naturiol ac wedi'u hailblannu yn dal i fodoli. Gellir derbyn y rhestr o goetiroedd hynafol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>
Asesiad Priodol	<p>Lle bo datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Natura 2000 (Safle Ramsar, ACA neu AGA), bydd angen asesiad priodol o dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu manylion llawn am ddatblygiad i'r awdurdod cynllunio er mwyn i'r awdurdod gynnal asesiad priodol. Dylid cyflwyno adroddiad ecolegol fel rhan o'r cais. Ni roddir caniatâd cynllunio ond os bydd yr asesiad priodol yn dangos yn glir na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar integriti'r safle Natura 2000, boed hynny'n ynysig, neu mewn cyfuniad ag effeithiau eraill. Mewn achosion lle gallai fod effaith ar integriti'r safle, ond lle mae budd gor-redol y cyhoedd yn cymell hynny, gellir rhoi caniatâd i symud ymlaen dim ond wedi derbyn caniatâd gan Lywodraeth Cymru (yn achos materion a ddatganolwyd) neu Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig (yn achos materion sydd heb eu datganoli). Os oes unrhyw debygolrwydd y bydd angen AP, cynghorir darpar ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol cyn gynted â phosib i drafod y materion.</p>
Toeon Llwyd	<p>Toeon a luniwyd i liniaru effaith colli tir llwyd (tir a ddatblygwyd yn flaenorol) sy'n cynnal rhywogaethau megis adar sy'n nythu ar y ddaear ac infertebratau. Is-haen o faint sy'n amrywio o gerrig mân wedi'u malu, i gerrig crwn neu greigiau bach wedi'u gosod dros bilen gwrth-ddŵr, y caniateir iddynt gael eu cytrefu'n naturiol gyda gorchudd prin o lystyfiant neu fywlys.</p>
Cadwraeth (yng nghyswllt bioamrywiaeth)	<p>Camau a gymerir i sicrhau bod poblogaethau rhywogaethau a'u cynefinoedd yn parhau i fodoli; mae hyn yn cynnwys mesurau adfer a gwella.</p>
Effeithiau Cronnol	<p>Effeithiau yn sgîl cyfuno effeithiau mwy nag un datblygiad.</p>
Gwydnwch Ecosystemau	<p>Mae gwydnwch ecosystemau yn derm sy'n cwmpasu gallu ein hecosystemau (gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, aer, dŵr, mathau o bridd a phrosesau ecolegol) i barhau i weithredu a darparu'r gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt. Wrth ystyried gwydnwch ecosystem, rhaid ystyried y canlynol: Amrywiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt; Cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt; Graddfa ecosystemau; Cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); a Gallu ecosystemau i addasu.</p>
Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA)	<p>O dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, mae rhai datblygiadau arfaethedig yn galw am asesiadau penodol i nodi eu heffeithiau tebygol (cadarnhaol a negyddol) ar yr amgylchedd. Mae AEA yn ofynnol ar gyfer pob prosiect a restrir o dan Atodlen 1 o'r Rheoliadau, tra bod angen 'sgrinio'r' rhai a restrir yn Atodlen 2 er mwyn pennu a oes angen AEA ar eu cyfer yn ôl trothwyon neu leoliadau penodol. Os yw datblygwyr yn ansicr a fydd angen AEA ar gyfer datblygiad, dylent ofyn am 'farn sgrinio' gan awdurdod cynllunio.</p>
Ffawna a Fflora	<p>Anifeiliaid a phlanhigion.</p>
Ffen	<p>Math o gynefin gwlyptir y ceir hyd iddo fel arfer mewn ardal fawnaidd lle ceir mewnbyn dŵr o ddŵr daear neu nentydd. Mae'r cynefin hwn yn cynnal llawer o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid na cheir hyd iddynt mewn cynefinoedd eraill, megis hesg a mwsogl migwyn.</p>

Atodiad E . Rhestr Eirfa

Cyfnewid Genetig	Cyfnewid gwybodaeth enetig rhwng poblogaethau fel rhan o'r broses fridio. Mae'r cyfnewid hwn yn sicrhau bod rhywogaethau yn medru esblygu ac addasu i'r amodau ar y pryd trwy gyflwyno gwybodaeth enetig newydd i'r gronfa enynnol (cyfanswm y deunydd genetig mewn poblogaeth sy'n bridio). Lle caiff cyfnewid genetig ei atal oherwydd bod poblogaeth yn cael ei hynysu, gall mewfridio ddigwydd, a gall poblogaeth farw allan yn sgîl anallu i addasu a'r mwtaniadau sy'n digwydd wrth fewnfridio.
Toeon glas	Toeon a luniwyd yn fwriadol fel bod modd cael llystyfiant arnynt. Gallant fod yn rhai dwys tebyg i erddi lefel y ddaear, neu'n ffurfiau hunangynaliadwy helaeth, wedi'u seilio ar haen denau, tebyg i bridd.
Seilwaith Werdd	Diffiniad y Sefydliad Tirlun o seilwaith werdd yw'r <i>'rhwylwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau glas, afonydd a llynnoedd sy'n digwydd rhwng pentrefi, trefi a dinasoedd ac yn eu cysylltu â'i gilydd. Mae'n seilwaith naturiol sy'n darparu gwasanaethau ac sy'n aml yn fwy cost-effeithiol, cydnerth a galluog i gyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd na seilwaith 'lwyd'</i> (Y Sefydliad Tirlun, Seilwaith Werdd. Dull Integredig o Ddefnyddio Tir. Datganiad Safbwynt, 2013).
Cynefin	Man lle mae poblogaeth rhywogaeth yn byw, term a ddefnyddir hefyd i gyfeirio at fannau lle ceir clystyrau o blanhigion ac anifeiliaid megis coetir neu laswelltir.
Darnio Cynefinoedd	Proses sy'n peri bod cynefinoedd yn cael eu rhannu'n ddarnau llai a'u hynysu yn sgîl datblygiad neu reolaeth amhriodol.
Effeithiau	Effeithiau a goblygiadau datblygiad.
Effeithiau Anuniongyrchol	Effaith datblygiad sy'n digwydd o ganlyniad i effaith uniongyrchol, yn sgîl effeithiau eraill, neu oherwydd rhyngweithio gwahanol effeithiau. Gall effeithiau anuniongyrchol ddigwydd yn ddiweddarach neu oddi ar y safle.
Rhywogaethau Ymwithiol	Rhywogaethau anffodol sydd wedi dod yn broblem arbennig oherwydd eu tueddiad i amlhau a bygwth rhywogaethau brodorol. Maent yn cynnwys Canclwm Japan, Rhododendron a Balsam Himalaya. Mae rhestr lawn o rywogaethau anffodol ymwithiol ar gael o dan A9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i newidiwyd.
Trwyddedu	Mae gwaith a fyddai'n golygu amharu ar rywogaeth a warchodir neu ei niweidio yn gorfod cael ei drwyddedu gan y corff cyfrifol perthnasol. Yng nghyswllt Rhywogaethau a Amddiffynnir ledled Ewrop megis ystlumod a dyfrgwn, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon. Llywodraeth Cymru yw'r corff perthnasol yn achos moch daear.
Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI)	CGBLI yw'r mecanwaith ar gyfer cyflawni'r targedau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a Chynllun Adfer Natur Cymru ar lefel lleol. Mae pob CGBLI yn nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer diogelu rhywogaethau a chynefinoedd. Datblygwyd CGBLI ledled Prydain gan bartneriaethau o randdeiliaid lleol. Mae pob CGBLI yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynllun Cenedlaethol, gan gwmpasu cynefinoedd blaenoriaeth a rhywogaethau sydd mewn perygl neu'n ansicr eu statws, yn ogystal â chynefinoedd mwy cyffredin a rhywogaethau lleol.
Ystyriaeth Bwysig	Pwnc allweddol y mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad ynghylch rhoi caniatâd neu beidio.
Rhywogaethau Brodorol	Rhywogaethau sy'n digwydd yn naturiol o fewn ardal yn hytrach na bod wedi'u cyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol gan bobl.
Nodwedd Naturiol	Nodwedd sy'n cynnal natur; gallai hynny ddigwydd trwy ddarparu cysgod, bwyd, lleoliadau bridio ar gyfer rhywogaethau bywyd gwyllt; neu gallai ddarparu cysylltiadau ecolegol i hwyluso symudiad; neu gallai ddarparu gwasanaethau ecolegol. Gall nodweddion o'r fath gynnwys rhai o waith dyn, yn ogystal â rhai sy'n digwydd yn naturiol.

Datblygiad a Ganiateir	Rhai datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae cais cynllunio llawn yn ofynnol ar gyfer datblygiadau y mae angen asesiad amgylcheddol ar eu cyfer o dan y Rheoliadau EIA, hyd yn oed os ydynt yn rhai a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan y Gorchymyn Datblygu. Ar ben hynny mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn cyfyngu ar y datblygiadau a ganiateir sy'n cael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd - AGA neu ACA, neu Rywogaethau a Amddiffynnir gan Ewrop. Mae caniatâd cynllunio hefyd yn ofynnol ar gyfer y datblygiadau canlynol a ganiateir oddi mewn i SoDdGA: defnydd o dir dros dro ar gyfer gêmâu rhyfel, chwaraeon modur a saethu colomennod clai.
Rhwymedigaethau Cynllunio (neu Gytundebau Adran 106)	Cytundebau yw'r rhain rhwng y datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio neu ymrwymiad unochrog gan y datblygwr a ofodir gan yr Awdurdod Cynllunio o dan A106 o Ddeddf Cynllunio 1990. Maent yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu rhywbeth a fydd yn golygu bod y cais yn dderbyniol o safbwynt cynllunio, lle gallai gael ei wrthod fel arall.
Rhywogaethau a Amddiffynnir	Rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid a restrir ac sy'n cael eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth bywyd gwyllt genedlaethol.
Rhywogaethau a Chynefinoedd Blaenoriaeth	Rhywogaethau a chynefinoedd a nodwyd fel rhai sy'n wynebu risg benodol ac y mae angen gweithredu yn eu cylch fel mater o flaenoriaeth o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig, fel yr adlewyrchwyd mewn cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol ac A7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
Effeithiau Gweddilliol	Effeithiau yn sgîl datblygiad nad oes mesurau atal, lliniaru neu wneud iawn i ymateb iddynt.
Cyfyngiadau Tymhorol	Y cyfyngiad gorfodol ar arolygon rhywogaethau yn sgîl ymddygiad tymhorol megis mudo, gaeafu a bridio, sy'n pennu presenoldeb rhywogaethau ac a ellid aflonyddu arnynt.
Rhywogaethau	Grŵp o anifeiliaid neu blanhigion o'r un math sy'n atgenghedlu ymhlith ei gilydd ond sydd fel arfer wedi'u hynysu oddi wrth fathau eraill o anifeiliaid neu blanhigion o safbwynt atgenghedlu.
Ynysu Rhywogaethau	Proses sy'n golygu bod rhywogaethau'n cael eu gwahanu oddi wrth eraill, gan leihau'r gronfa enynnol a'r posibiliadau o ran addasiadau esblygol.
Safleoedd a Ddynodwyd yn Statudol	Safleoedd sy'n cael amddiffyniad arbennig o dan y gyfraith. O safbwynt bioamrywiaeth mae'r rhain yn cynnwys: Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC).
Datblygu Cynaliadwy	Y diffiniad safonol o ddatblygu cynaliadwy yw <i>'datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'</i> (Brundtland, 1987). Mae hyn yn gofyn bod datblygiad yn sicrhau amddiffyniad effeithiol i'r amgylchedd, yn defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth, ac yn galluogi cyfle cyfartal a lles.
Cynlluniau Draenio Cynaliadwy (SuDS)	Cynlluniau draenio a luniwyd i wella'r rheolaeth ar ddŵr ffo o ddatblygiad a'i ansawdd, fel arfer trwy ymgorffori nodweddion sy'n efelychu systemau draenio mwy naturiol yn hytrach nag arwynebau anhydraidd a draeniau concrid. Mae nodweddion o'r fath yn cynnwys pyllau a gwelyau cyrs, a all hefyd wella amwynder a gwerth bioamrywiaeth safle.
Coridor Bywyd Gwyllt	Mae coridorau bywyd gwyllt yn darparu cyswllt ffisegol rhwng cynefinoedd bywyd gwyllt ac yn caniatáu i rai rhywogaethau symud rhwng ardaloedd a fyddai fel arall yn ynysig. Gall hyn helpu i ychwanegu at boblogaethau ynysig. Mae cynefin y coridor ei hun hefyd yn diwallu rhai neu'r cyfan o'r anghenion o ran cysgod, amddiffyniad, bwyd a safleoedd bridio, ac felly mae angen iddo gynnwys llystyfiant neu fod yn gynefin naturiol, megis perthi a nentydd.



Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol



www.npt.gov.uk/ldp



Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol